

Codi'r bar

Sicrhau dyfodol y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu

Corffennaf 2022



Senedd Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl. Mae'r Senedd, fel y'i gelwir, yn deddfu ar gyfer Cymru, yn cytuno ar drethi yng Nghymru, ac yn dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Senedd:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Economi, Masnach a Materion Gwledig
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddEconomi@senedd.cymru**
Twitter: **[@SeneddEconomi](https://twitter.com/SeneddEconomi)**

© **Hawlfraint Comisiwn y Senedd 2022**

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn y Senedd sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Codi'r bar

Sicrhau dyfodol y sectorau
lletygarwch, twristiaeth a
manwerthu

Gorffennaf 2022



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021. Ceir ei gylch gwaith yn:
www.senedd.cymru/SeneddEconomi

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Cadeirydd y Pwyllgor:
Paul Davies AS
Ceidwadwyr Cymreig



Hefin David AS
Llafur Cymru



Luke Fletcher AS
Plaid Cymru



Samuel Kurtz AS
Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS
Llafur Cymru



Sarah Murphy AS
Llafur Cymru

Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd	5
Argymhellion	7
1. Cyflwyniad.....	10
2. Cymorth busnes.....	12
Rhyddhad Ardrethi Busnes a diwygio Ardrethi Busnes	13
Treth ar Werth (TAW)	15
Pwysau yn sgil cynnydd mewn prisiau ynni	16
Effaith pwysau costau byw	16
Mesurau cymorth ariannol eraill	17
Cymorth cadwyn gyflenwi a chaffael lleol	17
Buddsoddi mewn strategaeth recriwtio	18
3. Strategaeth ar gyfer y sector manwerthu	19
4. Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Economi Ymwelwyr.....	23
Ailddosbarthu llety hunanddarpar at ddibenion treth leol	25
Ardoll dwristiaeth leol i Gymru	26
Ymgysylltu â chynrychiolwyr y sectorau a busnesau bach	28
5. Heriau yn ymwneud â'r farchnad lafur yn y sectorau.....	31
Effeithiau prinder staff ar gyflogwyr	31
Gwaith teg	34
Rôl y Contract Economaidd	40
Statws y sectorau	41
Proffesiynoli'r sectorau a chreu llwybrau dilyniant.....	43
Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar	46

Rhagair y Cadeirydd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae'r economi ymwelwyr yng Nghymru wedi adfer rhywfaint yn sgil pobl yn cael gwyliau gartref ar ôl Covid ac rydym yn dechrau gweld busnes arferol yn dychwelyd yn raddol. Ond mae'r gwaith adfer yn fregus ac mae pwysau costau byw yn cynyddu. Roedd ein hymchwiliad undydd yn edrych ar yr heriau hirdymor i'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, a sut i ddatrys materion dwys a allai atal hyder a rhwystro adferiad cadarn.

Mae'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu yn cyflogi cyfran uchel o weithlu Cymru ac fe gafodd ergyd aruthrol yn ystod y pandemig. Rydym wedi clywed gan fusnesau am yr heriau enfawr y maent wedi'u hwynebu, a'u pryderon am y misoedd a'r blynyddoedd i ddod, ond yr hyn sydd efallai wedi bod yn llai amlwg yw llais gweithwyr y sector. Penderfynwyd edrych ar y materion sy'n effeithio ar hyfywedd a chynaliadwyedd tymor hwy o safbwynt cyflogwyr, gweithwyr a darparwyr hyfforddiant. Rydym yn ddiolchgar i bawb a roddodd dystiolaeth, ond yn arbennig, diolch i'r unigolion dienw ledled Cymru a roddodd dystiolaeth onest a chymhellol i ni am sut beth yw gweithio yn y sectorau hyn. Clywsom hanesion am oriau hir, tâl isel, ansicrwydd swyddi, diffyg llais gweithwyr, a diffyg parch gan gwsmeriaid a chyflogwyr. Er gwaethaf hynny i gyd, dywedodd pobl hefyd eu bod nhw wir yn mwynhau'r gwaith. Mae balchder mawr mewn bod yn rhan o economi ymwelwyr fywiog Cymru, ac er bod Gweinidog yr Economi yn cydnabod bod yna heriau enfawr o ran hyder busnesau a defnyddwyr, roedd hefyd yn gadarnhaol iawn ynghylch y dyfodol.

Cafwyd rhagolygon pryderus o ran diweithdra torfol yn ystod y pandemig, ond erbyn hyn mae'r sectorau hyn yn wynebu prinder pobl, ac mae hynny'n cael ei waethgu yn sgil canfyddiadau negyddol ynghylch a allant gynnig gyrfaoedd sicr sy'n rhoi boddhad. Mae codi statws y sectorau hyn yn hanfodol. Mae gwaith wedi dechrau i roi llais i'r rhai sy'n creu profiadau yng Nghymru, a bydd y Fforwm Manwerthu a'r Fforwm Economi Ymwelwyr yn hanfodol er mwyn meithrin dealltwriaeth rhwng cyflogwyr, gweithwyr, darparwyr hyfforddiant, cyllidwyr a llunwyr polisi. Mae'r gwaith partneriaeth cryf a gafodd ei ddatblygu mewn ymateb i Covid-19 yn rhoi sylfaen gadarn ar gyfer gweithio drwy faterion a llunio atebion. Bydd hefyd yn helpu

Gweinidogion Cymru i flaenoriaethu unrhyw gymorth ariannol pellach yn wyneb dewisiadau anodd o ran y gyllideb.

Mae'r Pwyllgor yn galw am fwy o eglurder ynghylch rôl Contract Economaidd Llywodraeth Cymru o ran sbarduno canlyniadau gwaith teg. Rydym am gael sicrwydd nad yw polisiau'r Rhaglen Lywodraethu sy'n ymwneud â thai fforddiadwy ac ardoll twristiaeth arfaethedig yn cael effaith andwyol ar hyder busnesau. Mae'n rhaid i'r diwydiant chwarae ei ran wrth fynd i'r afael â'r hyn sy'n aml yn ganfyddiadau negyddol cadarn. Mae angen iddo broffesiynoli ei hun, a gweithio gyda'r llywodraeth a'r sector sgiliau i hyrwyddo llwybrau gyrfa clir a fydd yn denu talent. Mae busnesau'n cael trafferth gydag argyfwng costau gwneud busnes, ond mae'n rhaid iddynt wrthsefyll dadlwytho risgiau busnes ar eu gweithwyr ac, yn lle hynny, roi llais iddynt a sicrhau tâl ac amodau teg. Mae angen i Lywodraeth Cymru hefyd sicrhau bod lleisiau perchenweithredwyr llai yn cael eu clywed yn y fforymau a sefydlwyd i gefnogi'r sectorau hyn.

Mae'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn gwbl hanfodol i lwyddiant ein cenedl. Ochr yn ochr â'r nifer fawr o swyddi y maent yn eu creu, maent hefyd yn asgwrn cefn i'r byd adloniant a'r bywyd cymdeithasol y mae pobl yng Nghymru, a'n hymwelwyr, yn ei fwynhau, ac sy'n gwneud Cymru yn lle gwych i fyw ynddo neu i ymweld ag ef. Mae hyn yn golygu bod codi lefel yr uchelgais ar gyfer y sectorau hyn yn hanfodol a bydd yn helpu i godi ansawdd bywyd ein dinasyddion a'n hymwelwyr.



Paul Davies AS

Cadeirydd, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Gweinidogion Cymru nodi'n fanwl pa newidiadau i ardrethi annomestig sy'n cael eu hystyried i ddarparu'r 'amgylchedd cefnogol' ar gyfer y sector manwerthu yng Nghymru y galwodd y Fforwm Manwerthu amdano yn ei ddatganiad sefyllfa ym mis Mawrth 2022..... Tudalen 15

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried effaith anghymesur y pandemig a phwysau costau byw ar y sectorau lletygwrch, twristiaeth a manwerthu mewn perthynas â'r ailbrisio ardrethi annomestig a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023..... Tudalen 15

Argymhelliad 3. Dylai Gweinidog yr Economi barhau â'r ddeialog gyda Thrysorlys EM ar newidiadau posibl yn y dyfodol i lefel TAW i gefnogi'r adferiad bregus yn y sectorau lletygwrch, twristiaeth a manwerthu, yn enwedig yn sgil y pwysau costau byw cynyddol ar fusnesau yn y sectorau hynny. Tudalen 16

Argymhelliad 4. Dylai Gweinidog yr Economi nodi a ellir rhoi hyblygrwydd ychwanegol i fusnesau lletygwrch, twristiaeth a manwerthu wrth ad-dalu benthykiadau i Lywodraeth Cymru neu Fanc Datblygu Cymru yn sgil y pwysau ariannol parhaus y mae'r sectorau hyn o economi Cymru yn eu hwynebu. Tudalen 17

Argymhelliad 5. Dylai Gweinidog yr Economi ystyried pa gymorth ychwanegol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf y gellir ei ddarparu i'r sectorau lletygwrch, twristiaeth a manwerthu. Tudalen 17

Argymhelliad 6. Ar ôl cyhoeddi gweledigaeth strategol hirddisgwyliedig ar gyfer y sector manwerthu, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer y cynllun cyflawni cysylltiedig i gefnogi'r sector; sut y caiff gweithgareddau eu hariannu i ddiwallu anghenion a nodwyd gan y Fforwm Manwerthu; ac i ba raddau y bydd y rhain yn cael eu talu o gyllid presennol neu gyllid newydd. Yna, dylai'r Pwyllgor gael adroddiad arall ar gynnydd y cynllun cyflawni manwerthu manwl hwnnw chwe mis ar ôl ei gyhoeddi. Tudalen 21

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad manwl i'r Pwyllgor o ddyraniadau cyllideb 2022-23 i gefnogi twristiaeth. Tudalen 24

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n fanwl ei rhesymeg dros y cynnydd yn nifer y diwrnodau o'r flwyddyn y mae'n rhaid i eiddo hunanddarpar fod ar gael i'w osod i 252, a'r diwrnodau y caiff ei osod i 182, fel y nodir yng Ngorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio Diffiniad o Eiddo Domestig) 2022. Tudalen 26

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r sylfaen dystiolaeth a ystyriodd wrth benderfynu cyflwyno ardoll dwristiaeth leol ar hyn o bryd. Tudalen 27

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru rannu canlyniadau'r tri phrosiect ymchwil ar yr ardoll twristiaeth â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl. Tudalen 28

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl y dull arfaethedig o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer ardoll dwristiaeth leol arfaethedig. Tudalen 28

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r heriau y mae'r sectorau lletygwrch, twristiaeth a manwerthu yn eu hwynebu yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu polisi a'i hymyriadau ynghylch ail gartrefi ac ardoll dwristiaeth leol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar ganfyddiadau cynllun peilot Dwyfor, ac i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriad ar gyfer y camau nesaf; ei hamserlenni ar gyfer newidiadau polisi yn y dyfodol; a'i dull o asesu'r effeithiau economaidd ar y sectorau hynny. Tudalen 28

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach lle y mae'n gweld cwmplas, yn ei chynllun i ehangu'r rhaglen brentisiaethau, ar gyfer llwybrau gyrfa lefel uwch ym maes twristiaeth a lletygwrch, gan gynnwys ar gyfer gradd-brentisiaethau..... Tudalen 34

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am Aelodaeth y Fforwm Economi Ymwelwyr, gan gynnwys sut y mae'n cynnwys perchen-weithredwyr llai yn uniongyrchol, a nodi i ba raddau y mae bwrw ymlaen â chanlyniadau gwaith teg yn rhan o'i chylch gorchwyl..... Tudalen 37

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymgysylltiad â phartneriaid yn y Fforwm Economi Ymwelwyr cystal ag un y Fforwm Manwerthu, gan adeiladu ar arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o brofiad partneriaeth gymdeithasol. Tudalen 37

Argymhelliad 16. O gofio'r pryderon a gododd cynrychiolwyr busnes ac undebau llafur ynghylch diffyg dealltwriaeth o'r Contract Economaidd, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o esbonio a hyrwyddo'r contract, a nodi sut y mae'n bwriadu gwella cyfathrebu fel rhan o'i gwaith i gryfhau'r contract. Tudalen 41

Argymhelliad 17. Er ei fod yn cydnabod nad offeryn cydymffurfio yw'r Contract Economaidd, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu mecanweithiau i adolygu contractau enghreifftiol, ac yn nodi cynlluniau eraill sydd ganddi i gryfhau'r gwaith monitro a gorfodi fel rhan o'i gwaith ar gryfhau'r contract. Tudalen 41

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio'r ysgogiadau gwaith teg sydd ar gael iddi er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar rwystrau i waith teg yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu: gan gynnwys diogelu a gwella tâl ac amodau gweithwyr yn y sector yn sgil pwysau costau byw cynyddol ar weithwyr a chyflogwyr; gwella llais gweithwyr; a defnyddio amodau mewn cyllid grant i fusnesau i sicrhau gwelliannau gwaith teg. Tudalen 41

1. Cyflwyniad

Wrth i'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu barhau i ymgodymu â sgileffeithiau'r pandemig, canolbwyntiodd ymchwiliad y Pwyllgor ar yr heriau tymor hwy sy'n wynebu'r sectorau hyn a'u gweithwyr, a sut y gellir eu goresgyn.

1. Mae twristiaeth a lletygarwch yn cynrychioli 11.8% a 9.6% o weithlu Cymru, yn y drefn honno, a'r sector manwerthu yw cyflogwr mwyaf y sector preifat yng Nghymru, gyda 120,000 o weithwyr, sy'n cyfrif am 5.9% o GYC (gwerth ychwanegol crynswth) Cymru.¹ Yn ystod y pandemig, dywed Llywodraeth Cymru ei bod wedi darparu **dros £2.2 biliwn o gymorth i fusnesau** y mae cyfyngiadau Covid wedi effeithio arnynt. Roedd y sectorau lletygarwch a twristiaeth a'r sector manwerthu nad yw'n hanfodol yn fuddiolwyr sylweddol o'r cymorth hwn, ac er bod rhai arwyddion calonogol o adferiad, soniodd Gweinidog yr Economi fod hyder yn y sector twristiaeth yn 'fregus', ac roedd yn cydnabod effeithiau economaidd-gymdeithasol hirdymor y dirywiad.

2. Ar ôl clywed tystiolaeth ar faterion lletygarwch, twristiaeth a manwerthu ar 30 Medi 2021, penderfynodd y Pwyllgor gynnal ymchwiliad byr gyda ffocws penodol ar:

- brofiad diweddar y sectorau o ran Covid-19 ac adferiad economaidd;
- hyfywedd a chynaliadwyedd y sectorau yn y tymor hwy;
- materion sy'n ymwneud â'r gweithlu – gan gynnwys gwella ansawdd swyddi a mynd i'r afael â phrinder llafur;
- sgiliau yn y sectorau.

3. Ar 3 Mawrth 2022, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan sefydliadau sy'n cynrychioli'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, o Sefydliad Bevan, TUC Cymru ac Uno'r Undeb Cymru, a chan ddarparwyr hyfforddiant a chynrychiolwyr Colegau Cymru a Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru. Yna, clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi ar 17 Mawrth 2022.

¹ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, 17 Mawrth 2022

4. Yn dilyn y sesiwn ar 3 Mawrth, roedd yr Aelodau am ymgysylltu'n uniongyrchol â gweithwyr yn y sectorau hynny i edrych ar y materion a godwyd yn y Pwyllgor. Cafodd arolwg dienw ei hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol, ac yna cynhaliwyd cyfweiliadau un-i-un â rhai ymatebwyr. Mae'r adroddiad hwn yn ystyried canfyddiadau'r cyfweiliadau hynny, ac mae adroddiad llawn ar wahân o'r gwaith hwn gan dîm Ymgysylltu â Dinasyddion y Senedd ar gael ar dudalennau gwe'r Pwyllgor. Mae'r gweithwyr a gymerodd ran yn parhau i fod yn ddienw er mwyn eu diogelu - mae'r Pwyllgor yn hynod ddiolchgar i'r unigolion hynny am roi o'u hamser i gyfrannu i'r gwaith hwn.

2. Cymorth busnes

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn cynhwysfawr o fesurau cymorth ariannol i fusnesau yn ystod y pandemig, ac mae rhai ohonynt wedi'u targedu'n benodol at y tri sector hyn. Ar 23 Rhagfyr 2021, cyhoeddodd Gweinidog yr Economi £120 miliwn ychwanegol o gyllid coronafeirws i gefnogi busnesau yr effeithiwyd arnynt gan ledaeniad Omicron rhwng 13 Rhagfyr 2021 a 14 Chwefror 2022. Roedd y cymorth yn cynnwys:

- Grantiau gwerth rhwng £2,000 a £6,000 ar gyfer busnesau lletygarwch, hamdden a thwristiaeth a busnesau manwerthu nad ydynt yn hanfodol a'u cadwyni cyflenwi sy'n talu ardrethi busnes, gan ddibynnu ar werth ardrethol eu mangre busnes;
- Cymorth dewisol rhwng £500 a £2,000 gan awdurdodau lleol i unig fasnachwyr, gweithwyr llawrydd a busnesau cymwys yn y sectorau hyn a'u cadwyni cyflenwi nad ydynt yn talu ardrethi busnes;
- Grantiau gwerth hyd at £25,000 drwy'r Gronfa Cadernid Economaidd ar gyfer busnesau lletygarwch a hamdden yr effeithiwyd arnynt yn ddifrifol sydd wedi gweld gostyngiad o 60% o leiaf yn eu trosiant.

6. Ar yr un pryd, cyhoeddodd y Gweinidog hefyd y byddai'r Gronfa Cymorth Busnes gwerth £35 miliwn yn cael ei thynnu'n ôl, ond y byddai cynigion presennol yn cael eu hanrhydeddu. Cafodd y Gronfa Cymorth Busnes ei chyhoeddi ym mis Tachwedd 2021 i gefnogi busnesau bach a chanolig i ailddechrau, datblygu, datgarboneiddio a thyfu. Amlygodd tystiolaeth y Gweinidog i'r Pwyllgor, hefyd, fod llawer o fusnesau yn y sectorau hyn hefyd wedi elwa ar y Gronfa Adfer Diwylliannol gwerth £108 miliwn sydd wedi bod yn cefnogi digwyddiadau diwylliannol ac unigolion drwy gydol y pandemig.

7. Yn gyffredinol, roedd cynrychiolwyr o bob un o'r tri sector yn gadarnhaol ynghylch y cymorth a gynigiwyd gan Lywodraeth Cymru, gan ei ddisgrifio fel cymorth hael, amserol a chyflawn. Dyma'r un neges ag roedd Pwyllgor Economi, Seilwaith a Sgiliau blaenorol y Senedd wedi'i chael yn ystod y gwaith craffu cynharach ar gymorth busnes Covid-19 i fusnesau Cymru. Roedd y sectorau'n cydnabod bod rhai microfusnesau wedi 'llithro drwy'r craciau' o hyd, a bod effaith canslo munud olaf, ansicrwydd a phwysau ariannol difrifol hirfaith wedi effeithio ar fusnesau unigol. Er bod y Baromedr Twristiaeth diweddaraf (ar y pryd) (Tachwedd 2021) yn dangos adferiad calonogol i'r sector twristiaeth, dywedodd Llywodraeth Cymru fod yr hyder yn 'fregus', a nododd nifer o heriau tymor canolig i hirdymor ar gyfer pob un o'r tri sector sy'n rhan o 'economi ymwelwyr' hanfodol Cymru.

8. Nododd y dystion nifer o feysydd ar gyfer cymorth a sylw parhaus gan Lywodraeth Cymru.

Rhyddhad Ardrethi Busnes a diwygio Ardrethi Busnes

9. Roedd cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2022-23 yn dyrannu £116 miliwn i ddarparu rhyddhad ardrethi busnes o 50% yn 2022-23 i'r sectorau manwerthu, hamdden a lletygarwch, hyd at £110,000. Roedd hyn yn cyfateb i'r lefel o ryddhad a ddarparwyd gan Lywodraeth y DU yn Lloegr.

10. Mae'r sectorau lletygarwch a manwerthu yn arbennig wedi galw, ers tro, am ddiwygio ardrethi busnes i gynorthwyo busnesau sy'n seiliedig ar eiddo. Gwnaeth Sara Jones o Consortiwm Manwerthu Cymru a David Chapman o UKHospitality Cymru ategu bod hyn yn flaenoriaeth i'r sectorau wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor. Dywedodd David Chapman ei fod yn elfen bwysig ar gyfer adferiad Covid:

*"Business rates have been an increasingly unjust system year on year going into this. Sara and myself hosted a round-table with representatives before COVID to highlight how the changing shift in the commercial climate had left property-based businesses such as ours in the hospitality sector adrift when internet-based businesses and out-of-town businesses were increasingly growing, but we were taking an unfair share of the cost base in business rates. So, that's been long term and there continues to be a desperate need to put us on a level playing field with others."*²

11. Fodd bynnag, mynegodd Shavanah Taj o TUC Cymru bryderon dybryd yn sgil y ffaith bod rhyddhad ardrethi busnes yn anwahaniaethol ac felly y gallai weithio yn erbyn nodau'r agenda gwaith teg ar gyfer y sectorau hynny:

"...of all the levers the Welsh Government has to support business owners, I would say this is probably one of the worst ways for trying to leverage any changes in terms of employment conditions. I'm really worried that if this ends up continuing and it continues to be a significant way in which the sector is supported, instead of grant funding and other initiatives, it's going to be quite difficult to see how we'll actually achieve fair work outcomes as a result of that public spend, so this idea of the something-for-something agenda."

² Paragraff 73, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

*"It's also virtually guaranteed that those employers who actually practise illegal employment practices will receive Government support, because rates relief is so indiscriminate, and labour exploitation, of course, is rife in sectors like these. So, I think that we need to look at this again, and I think that when support is provided to businesses, even if it is during a pandemic, we need to go into it with our eyes open, and we need to be in a position where we are actively clawing back any support that has been provided if we find that bad practices are continuing."*³

12. Dywedodd **datganiad sefyllfa'r Fforwm Manwerthu**, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 15 Mawrth, y canlynol am ddiwygio ardrethi annomestig:

"Mae'r sector manwerthu'n gofyn am amgylchedd cefnogol i wynebu'r heriau hyn, gan gynnwys ystyried newidiadau posibl i'r system Ardrethi Annomestig (Ardrethi Busnes) i gefnogi twf yn y sector manwerthu."

13. Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor ar 17 Mawrth fod pecyn 2022 o ryddhad ardrethi busnes i fusnesau yng Nghymru o leiaf cystal â phob busnes dros y ffin⁴, ond na fyddai'r pecyn diwygio arfaethedig yn syml i'w gyflawni.

14. Ar **29 Mawrth** cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol raglen bedair blynedd "uchelgeisiol" o ddiwygio ardrethi annomestig, gan ddweud wrth y Senedd y byddai Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda llywodraeth leol, Asiantaeth y Swyddfa Brisió a Thribiwnlys Prisio Cymru "i archwilio a chyflwyno ffyrdd newydd o weithio i Gymru."⁵ Dywedodd y Gweinidog fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod yr angen i "adolygu ac addasu" polisi trethiant lleol, gan nodi:

"Ein nod yw cyflwyno deddfwriaeth i symud tuag at gylch ailbrisio tair blynedd, yn unol â rhannau eraill o'r DU, ac rydym yn archwilio opsiynau ar gyfer cylchoedd ailbrisio byrrach. Mae hyn yn cynnwys archwilio'r posibilrwydd o leihau'r bwlch rhwng y dyddiad prisio a'r dyddiad y mae'r rhestr ardrethu newydd yn dod i rym."

15. Cyfeiriodd y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol hefyd at yr angen i adolygu ac o bosibl ddiwygio'r broses apelio, adolygu'r cynlluniau rhyddhad, a gwella seilwaith data i gefnogi'r

³ Paragraff 213, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁴ Paragraff 207, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

⁵ <https://cofnod.senedd.cymru/Plenary/12661#A71283>

system ardrethi busnes. Dywedodd y bydd yr ailasesiad o eiddo annomestig ar gyfer yr ailbrisio yn dod i rym ym mis Ebrill 2023 *"yn adlewyrchu effaith y pandemig ar ein sylfaen drethi."*

Argymhelliad 1. Dylai Gweinidogion Cymru nodi'n fanwl pa newidiadau i ardrethi annomestig sy'n cael eu hystyried i ddarparu'r 'amgylchedd cefnogol' ar gyfer y sector manwerthu yng Nghymru y galwodd y Fforwm Manwerthu amdano yn ei ddatganiad sefyllfa ym mis Mawrth 2022.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried effaith anghymesur y pandemig a phwysau costau byw ar y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu mewn perthynas â'r ailbrisio ardrethi annomestig a ddaw i rym ym mis Ebrill 2023.

Treth ar Werth (TAW)

16. Fel rhan o'r ymateb i'r pandemig, gostyngodd Llywodraeth y DU gyfradd y TAW sy'n daladwy gan fusnesau lletygarwch a thwristiaeth o'r gyfradd safonol o 20% i 5% rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2021, ac i 12.5% rhwng mis Hydref 2021 a diwedd mis Mawrth 2022.

17. Wrth roi tystiolaeth i'r Pwyllgor ym mis Mawrth, cyfeiriodd UKHospitality Cymru at yr ymgyrch i Drysorlys EM gadw'r lefel TAW is o 12.5% ar gyfer busnesau lletygarwch a thwristiaeth ar ôl mis Ebrill 2022, yn hytrach na dychwelyd i'r gyfradd flaenorol o 20%. Cyfeiriodd David Chapman at y ffaith y byddai'r cynnydd yn cyd-fynd â newidiadau ariannol eraill sy'n effeithio ar fusnesau:

*"national insurance levels rising, with business rates returning to a 50 per cent ceiling from the 100 per cent support that we had during COVID, and also food and drink inflation, and, worse probably than that, energy inflation, which is absolutely enormous in the sector at the moment."*⁶

18. Dywedodd Gweinidog yr Economi ei fod, ynghyd â Gweinidogion eraill, wedi codi'r mater TAW gyda Gweinidogion y DU. Dywedodd y gallai dychwelyd i'r gyfradd 20% flaenorol yn gynnar niweidio'r economi mewn gwirionedd, oherwydd er bod yr economi gyffredinol yn ôl i lefelau cyn y pandemig yng Nghymru, a oedd yn newyddion da, nad yw'r adferiad o reidrwydd yn sicr ym mhob sector.⁷

19. Fel y cyhoeddodd Llywodraeth y DU yng Nghyllideb 2021, daeth y gyfradd is dros dro i dwristiaeth a lletygarwch i ben ar 31 Mawrth 2022.

⁶ Paragraff 19, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁷ Paragraff 209, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

Argymhelliad 3. Dylai Gweinidog yr Economi barhau â'r ddeialog gyda Thrysorlys EM ar newidiadau posibl yn y dyfodol i lefel TAW i gefnogi'r adferiad bregus yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu, yn enwedig yn sgil y pwysau costau byw cynyddol ar fusnesau yn y sectorau hynny.

Pwysau yn sgil cynnydd mewn prisiau ynni

20. Ar yr adeg y casglodd y Pwyllgor dystiolaeth ym mis Mawrth, dywedodd UKHospitality Cymru wrthym fod gwybodaeth gan ei aelodau yn nodi y byddai'r rhan fwyaf o fusnesau rhwng 2019-20 a 2023 yn gweld cynnydd o 2.8 gwaith yn eu biliau ynni a bod hynny'n amser pryderus iawn. Dywedodd David Chapman fod y cwpwrdd yn llwm. Ers hynny, mae'r Pwyllgor wedi clywed rhagor o dystiolaeth gan y sector busnes ar bwysau costau byw sydd wedi amlygu ymhellach y pwysau ar y sector i dalu costau ynni cynyddol, a'r hyn a ddisgrifiodd Dr Llyr ap Gareth o Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru yn argyfwng costau gwneud busnes.⁸

Effaith pwysau costau byw

21. Ers clywed dystiolaeth gan y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu ym mis Mawrth, mae pwysau costau byw ar y sectorau hynny wedi cynyddu'n sylweddol. Mae effaith y rhyfel yn Wcráin, materion cadwyn gyflenwi, chwyddiant cynyddol a chostau cynyddol ynni, tanwydd a bwyd oll wedi cyfrannu. Yn ddiweddar, rhoddodd y Pwyllgor flaenoriaeth i ddarn o waith i archwilio'r effeithiau economaidd-gymdeithasol ar y gweithlu, busnesau a chymunedau gwledig yn fanylach.

22. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi a'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd ar 15 Mehefin yn benodol ar bwysau costau byw, a bydd yn cyflwyno adroddiad ar wahân gydag argymhellion penodol. Mae'n amlwg bod effaith benodol ar dwristiaeth, lletygarwch a manwerthu, gyda Gweinidog yr Economi yn nodi bod y pwysau cynyddol yn heriol iawn. Mae'r sectorau hyn yn dibynnu ar gartrefi yn dewis gwario ar nwyddau a gwasanaethau nad ydynt yn hanfodol, sy'n cael ei wasgu fwyfwy, ac mae gweithwyr a pherchnogion busnes yr effeithiwyd arnynt yn wael gan y pandemig yn wynebu straen iechyd meddwl cynyddol. Effeithir yn anghymesur ar berchnogion busnes sy'n gweithredu mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, a hynny yn sgil cynnydd mewn costau ynni a thanwydd i gynnal eu busnes a chael mynediad at wasanaethau, yn ogystal â mwy o brinder sgiliau. Byddant yn profi'r ergyd ddwbl o bwysau personol uwch o ran costau byw ynghyd â chostau uwch i gynnal eu busnes. Mae mwy o ddibyniaeth ar gerbydau preifat, pellteroedd teithio hwy, mae mwy o bobl oddi ar y grid ac yn wynebu costau olew ac LPG afresymol, ac mae costau ar gyfer cysylltiadau band eang digonol yn uwch. Dywedodd Suzy Davies o Gynghair Twristiaeth Cymru

⁸ Paragraff 127, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 26 Mai 2022

yr effeithiwyd ar y diwydiant gan yr argyfwng costau byw, a hynny o safbwynt y cyflenwad a'r galw.⁹ Dywedodd Michael Bewick o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru na ellid gorbwysleisio effaith chwyddiant costau busnes ar y sector twristiaeth a'i gynlluniau buddsoddi.¹⁰

Mesurau cymorth ariannol eraill

23. Dywedodd Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru y byddai ar rai busnesau angen estyniad i'r cyfnod a bennwyd ar gyfer ad-dalu benthyciadau, a bod angen rhagor o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer rhai atyniadau ymwelwyr. Dywedodd ei bod yn bryderus mai dim ond swm isel, sef £5 miliwn, a oedd ar gael i Croeso Cymru ar gyfer gwaith cyfalaf yn arbennig gan fod yr arian hwnnw wedi'i glustnodi ar gyfer cynlluniau eraill.¹¹ Yn ystod Wythnos Twristiaeth Cymru (16-22 Mai) cyhoeddodd Gweinidog yr Economi becyn gwerth £2.9 miliwn o gymorth o dan y Gronfa "Pethau Pwysig". Mae cymorth Llywodraeth Cymru i'r Economi Ymwelwyr yn cael ei drafod yn fanylach yn ddiweddarach yn yr adroddiad hwn.

Argymhelliad 4. Dylai Gweinidog yr Economi nodi a ellir rhoi hyblygrwydd ychwanegol i fusnesau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu wrth ad-dalu benthyciadau i Lywodraeth Cymru neu Fanc Datblygu Cymru yn sgil y pwysau ariannol parhaus y mae'r sectorau hyn o economi Cymru yn eu hwynebu.

Argymhelliad 5. Dylai Gweinidog yr Economi ystyried pa gymorth ychwanegol ar gyfer buddsoddiad cyfalaf y gellir ei ddarparu i'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu.

Cymorth cadwyn gyflenwi a chaffael lleol

24. Nododd Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru, hefyd, broblemau gyda chadwyni cyflenwi a galwodd am ganolbwyntio ar annog caffael 'gwerth am arian' yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn canolbwyntio ar fesurau i gefnogi caffael lleol i greu cyfoeth yn yr economi sylfaenol lleol. Wrth i gostau bwyd godi mae her i fusnesau bach barhau i gaffael cynnyrch lleol o safon gan gyflenwyr lleol. Mae cefnogi cadwyni cyflenwi lleol - cefnogi busnesau a chymunedau lleol yn y bôn - yn bwysicach fyth yn wyneb pwysau costau byw.

25. Cyfeiriodd Gweinidog yr Economi at bwysigrwydd y Bil Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru), a gyflwynwyd ar 7 Mehefin, i wella caffael ymhellach fel ysgogydd allweddol cyfoeth mewn economïau lleol. Dywedodd ei fod ef a'i gyd-Weinidogion yn

⁹ Paragraff 21, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

¹⁰ Paragraff 25, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

¹¹ Paragraff 71, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

croesawu'r gwaith o graffu ar y Bil gan y Senedd a bod ganddynt wir ddiddordeb mewn gweld lle y gellid gwneud rhagor o welliannau.

Buddsoddi mewn strategaeth recriwtio

26. Dywedodd Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru fod y sector twristiaeth yn chwilio am fuddsoddiad mewn strategaeth recriwtio ar gyfer y diwydiant. Roedd yr angen i ganolbwyntio ar recriwtio a dilyniant gyrfa yn y sectorau hyn yn neges gref o'r ymchwiliad, a chaiff hyn ei drafod ymhellach yn yr adran ar sgiliau yn yr adroddiad hwn.

3. Strategaeth ar gyfer y sector manwerthu

27. Y sector manwerthu yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru gyda 114,000 o gyflogeion. Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwmo i gyhoeddi Strategaeth Fanwerthu. Roedd adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd yn 2021 ar oblygiadau gweithio o bell yng Nghymru yn argymhell (Argymhelliad 8) *"Y tu hwnt i egwyddor 'Canol Trefi yn Gyntaf' gyffredol Llywodraeth Cymru a'r rhaglen 'Trawsnewid Trefi', dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno Strategaeth a Chynllun Manwerthu a all addasu ac ymateb i dueddiadau gweithio o bell a gosod llwybr clir i'r sector hwnnw yng Nghymru, a'r busnesau a bywoliaethau gweithwyr y mae'n eu cefnogi."* Wrth ymateb i hyn, dywedodd Llywodraeth Cymru fod symud i strategaeth gyffredinol yn un a groesawyd gan y sector.

28. Ym mis Ionawr 2022, yn ystod gwaith craffu blynyddol ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, dywedodd papur y Gweinidog i'r Pwyllgor y byddai'r strategaeth arfaethedig, y mae'r Gweinidog yn bwriadu ei lansio ym mis Mawrth 2022, yn *"helpu'r sector manwerthu i gael dyfodol llewyrchus a fydd yn cynnig cyfleoedd deniadol i gael gwaith ac i ddatblygu gyrfa, ac i barhau i fod yn gonglfaen i economi Cymru"*.

29. Yn ei ymateb i ymgynghoriad y Pwyllgor Cyllid ar y gyllideb ddrafft, galwodd Consortiwm Manwerthu Cymru ar Lywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad i lunio strategaeth fanwerthu. Dywedodd Consortiwm Manwerthu Cymru hefyd ei bod yn bosibl y bydd goblygiadau cyllidol i argymhellion y strategaeth ac felly y byddai'n gwneud synnwyr i'r Gyllideb gynnwys cyllid ar gyfer cyflawni'r argymhellion hyn.

30. Pan holwyd y Gweinidog yng nghyfarfod y Pwyllgor ym mis Ionawr, eglurodd y Gweinidog nad oes pot o arian wedi'i neilltuo ar gyfer y strategaeth fanwerthu a dywedodd y canlynol:

"I don't think I could point to you that there is a pot of money that is deliberately set aside for the retail strategy, but it is about how we use the resources and what it looks like. [...] The partnership approach, I think, will mean that we'll be able to not just say, 'Here are the objectives', but also have a clear understanding of how we're going to use resources. Sometimes the resources are what Ministers say and do with their time, and sometimes it is about money. Every business, I'm sure, would say, 'If you give us money, we could find a good use for it', but it's actually about trying to agree the strategy itself."

31. Cadarnhaodd Sara Jones fod Cyngor Ffoaduriaid Cymru yn rhan o'r Fforwm Manwerthu a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru, a'i fod hefyd yn rhan o'r gweithgor sy'n gyfrifol am ddatblygu'r strategaeth. Ym mis Mawrth dywedodd wrth y Pwyllgor ei bod yn disgwyl y caiff y strategaeth ei chyhoeddi yn y gwanwyn, ond yr hoffai hefyd weld cynllun gweithredu yn dilyn hyn:

*"I think that would be our recommendation back to Welsh Government. It will be great to see the fact that retail will be embedded in the thinking, but it needs to have some serious actions behind it. Because retail is so cross-cutting across Government portfolios, it is difficult to capture this, but I think the strategy will help do that and ensure that we don't see that silo approach to dealing with some of the challenges that the sector faces. So, I think, going forward, there'll be a spring publication, but let's ensure that we see action that follows then in terms of a series of action plans."*¹²

32. Pan ofynnwyd iddi am y ffaith nad oedd cyllid penodol wedi'i neilltuo gan y Gweinidog, gwnaeth Sara Jones gydnabod bod cyllid wedi'i ddyrannu mewn meysydd gwahanol i gefnogi manwerthu, fel drwy ymrwymiad Trawsnewid Trefi yn y gyllideb dros dair blynedd. Dywedodd ei fod yn amlwg yn mynd i gyflawni rhai o ddyheadau'r strategaeth fanwerthu. Aeth ymlaen i ddweud bod angen rhywfaint o gyllid i helpu i lansio'r strategaeth hon a rhoi'r proffil y mae'n ei haeddu iddi, yn enwedig yn y camau cynnar, wrth edrych tuag at ei datblygu ymhellach dros y 12 mis nesaf.¹³

33. O ran datblygu 'gweledigaeth' strategol ar gyfer y sector, roedd datganiad sefyllfa a gyhoeddwyd gan y Fforwm Manwerthu ar 15 Mawrth 2022 yn nodi bod y Fforwm "yn croesawu'r ymrwymiad i ddatblygu a chyhoeddi gweledigaeth o'r fath y[m] mis Mai 2022 ac mae'n ymrwymedig i weithio gyda Llywodraeth Cymru arni." Dywedodd y byddai'r strategaeth "yn seiliedig ar dystiolaeth a bydd ei llywio gan ddeialog ac ymgysylltiad â'r sector yn ystod yr wythnosau sydd i ddod," ac y byddai'r 'weledigaeth':

"... yn nodi'r heriau yn y tymor byr, canolig a hir i gefnogi sector manwerthu llwyddiannus, cynaliadwy a gwydn sy'n cyflawni gwaith teg ac effeithlonrwydd ynni gwell

... yn [c]ydblythu â gweithgarwch ategol, megis y rhai hynny mewn perthynas ag adfywio canol trefi a dyfodol Ardrethi Busnes yng Nghymru ac yn darparu

¹² Paragraff 83, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

¹³ Paragraff 85, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

amserlen ar gyfer cytuno ar gamau gweithredu a fydd yn helpu i wireddu'r weledigaeth strategol

... yn sefydlu partneriaeth gymdeithasol fel ffordd o weithio, gan gynnwys helpu i gyflwyno cynrychiolwyr gwyrdd undebau llafur ac adlewyrchu gwerthoedd megis y rhai hynny a nodwyd ym mhedair conglfaen Contract Economaidd Llywodraeth Cymru."

34. Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor ar 17 Mawrth fod Llywodraeth Cymru yn datblygu strategaeth a oedd â rhywfaint o berchnogaeth a chytundeb ar y cyd¹⁴ a dealltwriaeth gyffredin o sut i fynd i'r afael â'r heriau sylweddol y mae'r sector yn eu hwynebu, gan gynnwys newidiadau yn ymddygiad defnyddwyr. Wrth ymateb i alwad Consortiwm Manwerthu Cymru am gyllid i gefnogi'r strategaeth a chynllun gweithredu yn ei gamau cynnar, dywedodd y Gweinidog y byddai angen iddo weld pa adnoddau ychwanegol y gofynnwyd amdanynt, gan fod cyllid eisoes wedi'i ddefnyddio i gefnogi'r sector manwerthu. Nid oedd yn diystyru cymorth ar gyfer rhywfaint o waith, ond dywedodd nad oes cronfa enfawr o arian heb ei ddefnyddio yn aros am gartref.¹⁵ Nododd, hefyd, fod y sector yn amrywiol iawn, yn amrywio o fusnesau bach i archfarchnadoedd mawr gydag adnoddau sylweddol ar gael iddynt.

35. Nododd y Gweinidog hefyd nad oedd cefnogi'r economi ymwelwyr yn ymwneud â chyllid yn unig, drwy fentrau fel Twf Swyddi Cymru+ a ReAct+ o dan y cynllun cyflogadwyedd a sgiliau ehangach, ond hefyd â phethau fel hyrwyddo'r ffordd maent yn ceisio defnyddio eu dylanwad a'u pwerau.¹⁶ Dywedodd nad oedd angen arian mawr o reidrwydd i greu ymgyrchoedd marchnata er mwyn ceisio dylanwadu ar agweddau ac ymddygiad ac annog gyrfaedd yn y sectorau hyn. Er nad oedd yn fodlon rhoi ffigur arno cyn cyhoeddi gweledigaeth a rennir ar gyfer manwerthu, ymrwymodd y Gweinidog i ddod yn ôl at y Pwyllgor gyda mwy o fanylion am adnoddau.

36. Mae'r Pwyllgor yn croesawu cyhoeddi gweledigaeth strategol a rennir ar gyfer y sector ar 17 Mehefin. Edrychwn ymlaen yn awr at weld y cynllun cyflawni a addawyd, y mae'r Gweinidog yn dweud y bydd yn ystyried tystiolaeth i'r Pwyllgor hwn, ac y bydd yn parhau i fonitro cynnydd yn agos.

Argymhelliad 6. Ar ôl cyhoeddi gweledigaeth strategol hirddisgwyliedig ar gyfer y sector manwerthu, dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am yr amserlen ar gyfer y cynllun cyflawni cysylltiedig i gefnogi'r sector; sut y caiff gweithgareddau eu hariannu i

¹⁴ Paragraffau 184-185, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

¹⁵ Paragraff 189, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

¹⁶ Paragraff 192, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

ddiwallu anghenion a nodwyd gan y Fforwm Manwerthu; ac i ba raddau y bydd y rhain yn cael eu talu o gyllid presennol neu gyllid newydd. Yna, dylai'r Pwyllgor gael adroddiad arall ar gynnydd y cynllun cyflawni manwerthu manwl hwnnw chwe mis ar ôl ei gyhoeddi.

4. Dull Llywodraeth Cymru o ymdrin â'r Economi Ymwelwyr

37. Ym mis Mawrth 2021, derbyniodd Llywodraeth Cymru argymhellion yn adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau y Bumed Senedd, **Adferiad tymor hir o COVID-19**, ar gymorth parhaus i'r sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu sydd wedi'u taro waethaf, ac i weithio gyda'r sectorau twristiaeth a lletygarwch ar strategaeth rheoli cyrchfannau. Yn ystod yr un mis, lansiodd Llywodraeth Cymru ei chynllun adfer ar gyfer yr economi ymwelwyr - **'Dewch i Lunio'r Dyfodol'** - a ddywedodd y byddai grŵp gorchwyl a gorffen newydd yn cael ei sefydlu i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu cynllun gweithredu cysylltiedig, i nodi'n fanwl sut y byddai'r ymyriadau a nodir yn y ddogfen yn cael eu darparu a chan bwy. Cafodd **adolygiad** o weithgareddau'r cynllun adferiad ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2022, gan nodi rôl y pedwar **Fforwm Rhanbarthol** yng Nghymru i gydlynu cynlluniau a gweithgareddau'r dyfodol.

38. Ym mis Ionawr 2022, gwnaeth y Gweinidog gydnabod i'r Pwyllgor pa mor ddifrifol y mae'r pandemig wedi effeithio ar yr economi ymwelwyr, gan ddweud bod, *"busnesau wedi wynebu heriau eithriadol na welwyd eu tebyg, ac er gwaethaf ymyriadau ariannol helaeth gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, mae'r dirywiad yn y sector yn dal i gael effaith ddifrifol – symbolaidd, gymdeithasol, ddiwylliannol ac economaidd – ar lawer o drefi a phentrefi sydd hefyd yn wynebu heriau eraill sy'n gysylltiedig â Covid-19, a fydd yn parhau i 2022/23."*¹⁷

39. Aeth y Gweinidog ymlaen i ddweud ei fod wedi gweld "rhagolygon cadarnhaol" yn y tymor canolig i hir, "oherwydd natur ac ansawdd y cynnyrch Cymreig sy'n cael ei gynnig a chryfder ym marchnad ddomestig y DU, ac mae unrhyw gyllid yn ffordd o gefnogi diwydiant sy'n cael ei herio ac yn buddsoddi yn ffyniant hirdymor sawl rhan o Gymru."¹⁸

40. Yn ei **adroddiad** ym mis Ionawr 2022 ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, gofynnodd y Pwyllgor hwn am ddadansoddiad o'r dyraniad cyllid a'r amcanion cysylltiedig ar gyfer cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer yr economi ymwelwyr. Mewn ymateb, **dywedodd** Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor y byddai'r Llywodraeth ar ôl y flwyddyn ariannol gyfredol yn cwblhau gwaith ar y cynllun adferiad **'Dewch i Lunio'r Dyfodol'** ac *"yn symud yn ôl i'n cynllun strategol hirdymor, **'Croeso i Gymru: blaenoriaethau i'r economi ymwelwyr 2020-25'**".* Nododd y Gweinidog fod Cynllun Busnes ar gyfer 2022-23

¹⁷ Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Ionawr 2022

¹⁸ Tystiolaeth Ysgrifenedig gan Weinidog yr Economi, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 20 Ionawr 2022

yn cael ei ddatblygu i gyflawni blaenoriaethau Croeso i Gymru a *"darparu cydbwysedd rhwng gwariant cyfalaf a refeniw i gefnogi'r sector yn uniongyrchol drwy'r cyfnod adfer parhaus a datblygu cynnig twristiaeth gynaliadwy ymhellach."*

41. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig arall i'r Pwyllgor ar 15 Mehefin, cydnabu'r Gweinidog yr heriau parhaus i'r economi ymwelwyr, a nododd ei flaenoriaethau yn y cynllun strategol hirdymor: *"Rydym yn pwysleisio pwysigrwydd trafod rhannu manteision, annog rhagor i wario yn ein heconomi a mynd i'r afael â natur dymhorol y sector drwy werthu Cymru fel gwlad y gallwch ymweld â hi ar unrhyw adeg o'r flwyddyn."*¹⁹

42. Darparodd y Gyllideb ddrafft ar gyfer 2022-23 ddyraniad o £5 miliwn o gyfalaf ac £11.962 miliwn o refeniw ar gyfer twristiaeth, ac ymrwymodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad manylach o'r dyraniadau ar ôl i'r Cynllun Busnes gael ei gwblhau. Mae gwefan Busnes Cymru yn **amlinellu'r** cronfeydd amrywiol sydd ar gael yng Nghymru i gefnogi twristiaeth.

Argymhelliad 7. Dylai Llywodraeth Cymru roi dadansoddiad manwl i'r Pwyllgor o ddyraniadau cyllideb 2022-23 i gefnogi twristiaeth.

43. Ar 20 Mai, **cyhoeddodd** Gweinidog yr Economi £2.9 miliwn o gronfa gyfalaf Y Pethau Pwysig Llywodraeth Cymru, i'w *"rhannu ymhlith 18 o brosiectau a fydd yn helpu i sicrhau gwelliannau seilwaith ar raddfa fach mewn lleoliadau twristiaeth strategol bwysig ledled Cymru."* Dywedodd y Gweinidog fod yr arian ar gyfer helpu awdurdodau lleol a pharciau cenedlaethol i sicrhau manteision lleol a mesurau cymorth i *"leddfu'r pwysau"* mewn ardaloedd lle bu cynnydd yn nifer yr ymwelwyr. Dywedodd y byddai'n cefnogi prosiectau i *"wella hygyrchedd i safleoedd a phrosiectau sy'n gwneud eu cyrchfannau'n fwy amgylcheddol gynaliadwy."*

44. Gofynnodd y Pwyllgor i Weinidog yr Economi am y galwadau gan y sector twristiaeth am fwy o fuddsoddiad cyfalaf. Cyfeiriodd at y ffaith, er bod cronfeydd fel Y Pethau Pwysig yn fuddsoddiadau mwy gweladwy ac amlwg, fod meysydd eraill hefyd o ddyraniad cyfalaf, megis drwy'r rhaglen Trawsnewid Trefi gwerth £136 miliwn, a phrosiectau mewn trefi fel Arberth, Tonypany neu Aberystwyth, lle bo buddsoddiadau mewn creu ymdeimlad o le²⁰ yn cyfrannu at gefnogaeth i'r economi ymwelwyr.

45. Dywedodd Gweinidog yr Economi, hefyd, fod rhai o'r prosiectau hynny, fel yr Hen Goleg yn Aberystwyth, wedi'u cefnogi drwy gyllid yr UE ac er bod rhai prosiectau wedi'u cyhoeddi a oedd yn cael eu hariannu drwy'r Gronfa Adnewyddu Cymunedol a'r Gronfa Ffyniant Gyffredin

¹⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, 15 Mehefin 2022

²⁰ Paragraffau 199-201, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

newydd, roedd rhywfaint o ansicrwydd yn dal i fodoli, gan gynnwys ynghylch yr elfen yn ymwneud â phroses ymgeisio'r Gronfa Ffyniant Gyffredin.

46. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei fod yn gweld twristiaeth fel un arf adfywio, a bod angen i amrywiaeth o sectorau a llinellau cyllideb ar draws portffolios Gweinidogion gwahanol uno er mwyn hyrwyddo'r economi ymwelwyr ac atyniadau i ymwelwyr mewn rhannau gwahanol o Gymru. Dywedodd ei bod yn bwysig manteisio ar y farchnad ymwelwyr ryngwladol, gan dynnu sylw at y cysylltiad â strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru, ond ei bod yn farchnad gystadleuol iawn gyda marchnata ymosodol²¹ gan rannau gwahanol o'r DU. Nododd hefyd y gwaith oedd yn cael ei wneud i hyrwyddo Cymru dramor, gan gynnwys cysylltiadau â Chymru ar wasgar, gwaith cenhadon a'r rhaglen ymweliadau ryngwladol. Cyfeiriodd y Gweinidog at gydweithredu cadarnhaol â Llywodraeth y DU, yn enwedig yr Adran Masnach Ryngwladol, i hyrwyddo Cymru ar lwyfan y byd.²²

47. Roedd Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru wedi dweud wrth y Pwyllgor, er bod rhai o bolisiau Llywodraeth Cymru yn cael eu croesawu gan y sector twristiaeth, megis 'gwyrddu' y diwydiant, fod polisiau eraill yn cyfrannu i ymdeimlad o ansefydlogrwydd ac ansicrwydd, yn benodol newidiadau i drothwyon ar y gwahaniaeth rhwng busnesau a gosod eiddo dros dro, y dreth gyngor ar ail gartrefi a'r ardoll dwristiaeth. Dywedodd Suzy Davies fod y rhain yn drysu aelodau presennol, ac yn atal eraill rhag dod i mewn i'r farchnad. Dywedodd ei fod yn ddiwydiant wedi'i 'ddatgysylltu' a bod hynny'n rhywbeth yr oedd y Gynghrair eisiau helpu i'w ddatrys.

48. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r adroddiad Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai'r Senedd ar **ail gartrefi** a gyhoeddwyd yn ddiweddar ac yn nodi'r gwahanol ymyriadau polisi yn y maes hwn, gan gynnwys y cynllun peilot sydd ar y gweill yn Nwyfor. Mae'r Pwyllgor yn edrych ymlaen at weld ymateb Llywodraeth Cymru i argymhellion yn yr adroddiad hwnnw sy'n ymwneud â'r effaith bosibl ar yr economi ymwelwyr yng Nghymru.

Aiddosbarthu llety hunanddarpar at ddibenion treth leol

49. Ar 24 Mai, **cadarnhaodd** y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol gynlluniau i aiddosbarthu eiddo sy'n cael ei osod fel llety hunanddarpar o dan drothwy penodol o ddiwrnodau'r flwyddyn fel rhai sy'n gorfod talu'r dreth gyngor. Disgwylir i Orchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio Diffiniad o Eiddo Domestig) 2022 ddod i rym ar 14 Mehefin 2022 a bydd yn dod yn weithredol o fis Ebrill 2023. Mae'n cynyddu nifer y diwrnodau o'r flwyddyn y mae'n rhaid i eiddo hunanddarpar fod ar gael i'w osod o 140 i 252 o ddiwrnodau, a nifer y diwrnodau

²¹ Paragraff 205, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

²² Paragraffau 246-247, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

y caiff ei osod o 70 i 182 o ddiwrnodau. Roedd datganiad y Gweinidog yn cydnabod cryfder teimladau gweithredwyr, ond dywedodd ei bod wedi gwrandao ar sylwadau gan fusnesau unigol a chyrrff diwydiant, gan ychwanegu:

"Rwy'n cydnabod y gallai'r meini prawf cryfach fod yn heriol i rai gweithredwyr eu bodloni. Diben y newid yw helpu i sicrhau bod perchnogion eiddo yn gwneud cyfraniad teg i gymunedau lleol, er enghraifft drwy gynyddu eu cyfraniad i'r economi leol drwy weithgarwch uwch o ran gosod neu drwy dalu'r dreth gyngor ar eu heiddo. Blaenoriaeth polisi Llywodraeth Cymru yw cefnogi cymunedau cynaliadwy a thai fforddiadwy..."

50. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig y Gweinidog i'r Pwyllgor hefyd yn cyfeirio at y mater hwn o dai fforddiadwy. Dywedodd fod cefnogi pobl ifanc i allu aros a gweithio yn yr economi ymwelwyr yn y cymunedau lle maen nhw wedi cael eu magu yn rhan o'i "ddull gweithredu tair elfen": "defnyddio ein fframwaith rheoleiddio i reoli ail gartrefi ychwanegol ac eiddo a osodir ar gyfer gwyliau tymor byr yn well."²³

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu'n fanwl ei rhesymeg dros y cynnydd yn nifer y diwrnodau o'r flwyddyn y mae'n rhaid i eiddo hunanddarpar fod ar gael i'w osod i 252, a'r diwrnodau y caiff ei osod i 182, fel y nodir yng Ngorchymyn Ardrethu Annomestig (Diwygio Diffiniad o Eiddo Domestig) 2022.

Ardoll dwristiaeth leol i Gymru

51. Gwnaeth Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i gyflwyno ardoll dwristiaeth leol i'w chymhwyso i lety dros nos yng Nghymru. Byddai'r penderfyniad i godi ardoll yn cael ei adael i awdurdodau lleol unigol, a'r arian a godwyd yn cael ei fuddsoddi yn ardal yr awdurdod lleol.

52. Mae ardollau twristiaid yn gyffredin mewn sawl rhan o'r byd, fel arfer treth feddiannaeth sy'n cael ei chymhwyso i bob person y noson am arosiadau tymor byr. Mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi dweud bod yr ardoll yng Nghymru yn gyfle i awdurdodau lleol "r[h]eoli a buddsoddi yn y gwasanaethau a'r seilwaith sy'n gwneud twristiaeth yn llwyddiant", boed hynny drwy lanhau traethau neu gynnal a chadw toiledau a llwybrau troed. Mae'r ardoll yn cael ei chynnig i gefnogi dyfodol lleoliadau twristiaid drwy hyrwyddo agwedd fwy cynaliadwy ar dwristiaeth. Nid yw'r union ffi a godir ar ymwelwyr wedi'i phenderfynu eto.

²³ Tystiolaeth ysgrifenedig, 17 Mawrth 2022

53. Mae Cynghrair Twristiaeth Cymru yn cydnabod y defnydd o ardollau twristiaeth mewn gwledydd eraill, ond mae'n pwysleisio, lle mae ardollau'n cael eu gweithredu, fod cyfraddau TAW fel arfer yn cael eu gostwng ar dwristiaeth a lletygarwch. Gyda chyfradd bresennol y DU gyfan o TAW, mae Cynghrair Twristiaeth Cymru yn awgrymu y byddai cyflwyno ardoll dwristiaeth yn fath o drethiant dwbl mewn cymhariaeth â chyrchfannau eraill. Mae hefyd yn pryderu y gallai'r gost ychwanegol atal ymwelwyr ar incwm is rhag dod i Gymru, neu deithio yng Nghymru ei hun. Dywed UK Hospitality Cymru mai dyma'r dreth anghywir ar yr amser anghywir, o ystyried effeithiau'r pandemig ar y sector, ac y gallai prisiau uwch annog cwsmeriaid i fynd at gystadleuwyr. Mae Cymdeithas Lletygarwch Llandudno hefyd wedi mynegi pryderon am yr effaith y gallai ardoll ei chael ar gystadleurwydd Cymru â chyrchfannau twristiaid eraill yn y DU. Dywedodd prif weithredwr Twristiaeth Gogledd Cymru fod hyn yn gam enfawr yn ôl. Mae Cynghrair Twristiaeth Ynys Môn yn cydnabod gwaith ardollau twristiaeth mewn cyrchfannau eraill, ond wedi rhybuddio yn erbyn ymateb byrbwyll, a galwodd am ymgynghori â'r sector ac ymwelwyr. Dywedodd Michael Bewick o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru wrth y Pwyllgor ym mis Mawrth mai barn llawer o randdeiliaid oedd nad nawr yw'r adeg gywir i ymgynghori ar gyflwyno ardoll, gyda'r diwydiant dan gymaint o bwysau.²⁴

54. Mae'r Gweinidog wedi cymeradwyo cyllid ar gyfer tri phrosiect ymchwil i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r ardoll, a dywedir y bydd y gwaith hwn yn cynnwys ystyried yr effaith economaidd yng Nghymru; y systemau treth mewn meysydd lle mae ardollau o'r fath yn gymwys; a demograffeg y sector llety yng Nghymru. Mae disgwyl i Lywodraeth Cymru ymgynghori ar ddeddfwriaeth ddrafft yn ystod hydref 2022.

55. Daeth Gweinidog yr Economi hefyd i gyfarfod y Pwyllgor ar **15 Mehefin** a gofynnwyd iddo am amseriad yr ymgynghoriad ar yr ardoll ac effaith bosibl hynny ar y sectorau twristiaeth a lletygarwch yng nghyd-destun pwysau cynyddol o ran costau byw a hyder busnesau. Pwysleisiodd nad yw'n mynd i ddigwydd ganol mis Awst yr haf hwn ac y byddai ardoll yn annhebygol o gael ei chyflwyno cyn diwedd tymor y Senedd hon.

56. O ran cymorth mewn meysydd eraill, megis ardrethi busnes a'r dreth gyngor, dywedodd ei fod yn cydnabod yr heriau mawr y mae'r sectorau yn eu hwynebu ond bod pwysau chwyddiant cynyddol ar gyllideb Llywodraeth Cymru yn gyffredinol, ac y byddai unrhyw gymorth arall yn golygu sgwrs â'r Gweinidog Cyllid am y gallu i ariannu hynny.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'r sylfaen dystiolaeth a ystyriodd wrth benderfynu cyflwyno ardoll dwristiaeth leol ar hyn o bryd.

²⁴ Paragraff 39, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru rannu canlyniadau'r tri phrosiect ymchwil ar yr ardoll twristiaeth â'r Pwyllgor cyn gynted â phosibl.

Argymhelliad 11. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanwl y dull arfaethedig o ymgynghori ar y ddeddfwriaeth ddrafft ar gyfer ardoll dwristiaeth leol arfaethedig.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut mae'r heriau y mae'r sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu yn eu hwynebu yn cael eu hystyried wrth ddatblygu ei dull gweithredu polisi a'i hymyriadau ynghylch ail gartrefi ac ardoll dwristiaeth leol. Byddai'r Pwyllgor yn croesawu diweddariad ar ganfyddiadau cynllun peilot Dwyfor, ac i Lywodraeth Cymru egluro ei bwriad ar gyfer y camau nesaf; ei hamserlenni ar gyfer newidiadau polisi yn y dyfodol; a'i dull o asesu'r effeithiau economaidd ar y sectorau hynny.

Ymgysylltu â chynrychiolwyr y sectorau a busnesau bach

57. Ym mis Mawrth, disgrifiodd Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru lefel is o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru nag UKHospitality Cymru, ac mae'r cynllun gweithredu ar gyfer y sector twristiaeth yn cydnabod bod angen gwella ymgysylltiad â'r sector preifat. Bydd yn hanfodol i fusnesau bach a chanolig fod â rhan lawn wrth fynd i'r afael â'r materion strwythurol allweddol y mae'r sector twristiaeth a lletygarwch yn eu hwynebu ar ôl Covid. Dywedodd Suzy Davies y canlynol am fusnesau bach a chanolig: *"they don't feel that they've been particularly offered the opportunity to contribute in the way that they might have liked to have done."* O ran gwaith y fforymau rhanbarthol, ychwanegodd y canlynol *"...that's no disrespect, obviously, to the chairs of those fora, but it's not an area where the WTA has felt particularly valued or asked for its opinion, and when you consider the number of members—it represents almost 7,000 businesses through its membership across Wales—that's quite an omission in the arrangement..."*²⁵

58. Dywedodd Michael Bewick o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru, wrth drafod rôl Llywodraeth Cymru yn helpu i broffesiynoli'r diwydiant, ei fod yn gweld:

*"a great role for Welsh Government in bringing together groupings of smaller businesses that are then able to access these sorts of things, because at the moment they're not really perceiving that there's anything for them."*²⁶

59. Soniodd David Chapman am brofiad cadarnhaol ym Mhartneriaeth Sgiliau'r Brifddinas-Ranbarth sy'n cynnwys diwydiant a'r byd academiaidd yn eistedd wrth ford ac yn datrys

²⁵ Paragraff 138, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

²⁶ Paragraff 120, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

materion datgysylltu, megis darparu profiad gwaith. Nododd y canlynol am adroddiad interim Cymwysterau Cymru o'i adolygiad:

*"indicates that there has been a fracture between the industry and the providers that we can resolve, and it's not been for any reason, for any party—it's just that there's an opportunity to get people together and to do it better."*²⁷

60. Er y dywedodd Arwyn Watkins o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ei fod wedi bod yn rhan o'r gwaith i ddatblygu'r cynllun economi ymwelwyr a'r cynllun adfer twristiaeth, nid oedd hynny'n wir i Jeff Protheroe o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, James Scorey o Goleg Caerdydd a'r Fro, nac Iestyn Davies o Colegau Cymru. Dywedodd Iestyn Davies y canlynol:

*"I would hope somebody writing these strategies has engaged with the FE community somewhere along the line, but it certainly hasn't been through us."*²⁸

Roedd yn syndod i'r Pwyllgor nad oedd mwy o gysondeb o ran y modd y bu rhanddeiliaid amlwg o'r sectorau sgiliau a thwristiaeth yn cymryd rhan mewn datblygu cynlluniau ar gyfer y sectorau.

61. Pan ofynnodd y Pwyllgor i Weinidog yr Economi am lefel yr ymgysylltu â busnesau bach a chanolog twristiaeth, dywedodd fod barn Cynghair Twristiaeth Cymru yn ei synnu ac yn ei siomi. Soniodd am y canlynol: *"dedicated work streams on trying to redesign the future, to try to make sure that we still have a really healthy visitor Economy"*.²⁹ Dywedodd ei fod ef a swyddogion yn ymgysylltu'n rheolaidd â Chynghair Twristiaeth Cymru a grwpiau busnes eraill drwy gydol y pandemig a, chyda 12 y cant o weithwyr yn cael eu cyflogi yn y sector cyn y pandemig, nid ystyriwyd ei fod yn ymylol ond yn bwysig iawn.

62. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y bydd llawer o waith wedi'i wneud ers mis Mawrth i barhau i gefnogi'r economi ymwelwyr drwy weithio gyda'r fforymau rhanbarthol, partneriaethau twristiaeth a sgiliau, darparwyr addysgol a Busnes Cymru, a hyrwyddo'r ffrydiau ariannu amrywiol a'r rhaglenni sgiliau sydd ar gael i fusnesau a chyflogeion posibl. Fodd bynnag, o ystyried yr amrywiaeth o fentrau a rhaglenni sy'n cael eu darparu ar draws adrannau gwahanol y llywodraeth, cyrff hyd braich a sectorau, a'r trefniadau partneriaeth gwahanol, efallai y bydd angen mwy o ymdrech i sicrhau gwaith partneriaeth cwbl gydgysylltiedig yn gyffredinol i

²⁷ Paragraff 123, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

²⁸ Paragraff 350, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

²⁹ Paragraff 186, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

gefnogi'r economi ymwelwyr. Cafwyd neges gref gan dystion bod angen gwneud mwy i ddod o hyd i ffyrdd o helpu microfusnesau a weithredir gan berchnogion i gymryd mwy o ran.

5. Heriau yn ymwneud â'r farchnad lafur yn y sectorau

Effeithiau prinder staff ar gyflogwyr

63. Amlinellodd James Scorey o Goleg Caerdydd a'r Fro rai o'r heriau o ran sgiliau y mae'r sectorau yn eu hwynebu, gan gynnwys effaith Brexit ar brinder sgiliau, y ffaith bod 78 y cant o'r sector lletygwrch wedi bod ar ffyrlo a oedd yn effeithio ar adferiad, a cholli hyder pobl ifanc i ymgeisio am rolau.

64. Roedd tystiolaeth Gweinidog yr Economi i'r Pwyllgor ar 15 Mehefin hefyd yn tanlinellu maint y broblem, a dywedodd fod ymdrechion yn cael eu gwneud i fynd i'r afael â hyn drwy ymgyrch Cymru'n Gweithio, ac mewn partneriaeth â Phartneriaeth Twristiaeth a Sgiliau Cymru: *"Yn ôl Baromedr Twristiaeth y Gwanwyn, mae 29% o fusnesau twristiaeth a lletygwrch yn ceisio llenwi swyddi gwag, gyda 63% o'r rhain yn profi cryn anawsterau. Y prif themâu o hyd yw denu pobl yn ôl i weithio yn y sector neu i waith o gwbl. Mae effeithiau anawsterau wrth recriwtio'n parhau i fod yn sylweddol, gyda rhai busnesau yn methu agor mor llawn neu mor aml ag yr hoffent."*³⁰

65. Pwysleisiodd Arwyn Watkins, sy'n cynrychioli Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, fod angen rhoi llawer mwy o flaenoriaeth i fynd i'r afael â phrinder yn y sector lletygwrch:

*"If the number of jobs that have been lost in this sector over the last 24 months had been lost in any other sector, there would be absolute uproar, quite frankly, and nobody is saying anything about it whatsoever, apart from the employers trying to fill the vacancies."*³¹

66. Pwysleisiodd mai prinder pobl ydoedd, yn hytrach na phrinder sgiliau³², gan gyfeirio at y swyddi gwag helaeth oedd gan rai cyflogwyr:

*"nothing that we do over the next five years in terms of bringing people in through a skills system is going to address the number of vacancies that we've currently got in the Welsh economy within this sector."*³³

³⁰ Tystiolaeth Ysgrifenedig, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 15 Mehefin 2022

³¹ Paragraff 319, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

³² Paragraff 308, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

³³ Paragraff 308, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

Croesawodd gael gwared ar rwystr y 'cap oedran' 25 oed i brentisiaethau yn y sectorau lletygarwch a thwristiaeth fel cam cadarnhaol.

67. Dywedodd James Scorey fod denu pobl ac ailysbrydoli hyder yn flaenoriaeth. Ychwanegodd lestyn mai'r her fwyaf oedd yr ystyriwyd bod gweithio ym maes lletygarwch yn rhywbeth i'w wneud wrth hyfforddi i wneud rhywbeth arall³⁴, yn hytrach na llwybr gyrfa yn ei rinwedd ei hun ac, oni bai bod hynny'n newid, y byddai mesurau eraill yn eilaidd. Cytunodd Arwyn Watkins, sydd wedi gwneud gyrfa yn y sector, fod angen sgwrs am sicrwydd swydd yn y dyfodol.

68. Bu'r dystion o'r sector sgiliau a'r Aelodau yn trafod cyfyng-gyngor y sector lletygarwch a'r economi ymwelwyr ehangach yng Nghymru, o'r diffyg cyfatebiaeth rhwng dyhead i gynnig gwasanaeth a chynnyrch gwerth uchel a llwybr gyrfa cryf, a realiti'r galw mawr gan gyflogwyr am swyddi sgiliau lefel 2 neu lefel 3 is. Cyfeiriodd lestyn Davies o Colegau Cymru at **adroddiad ymchwili** Dr Rachel Bowen, sef "Gamwn, wy a sglodion mewn tafarn nos ar ol nos":

*"...for the more ambitiously thinking, entrepreneurial proprietor, they want to see a big, wide range of culinary and other kinds of offers in their establishment. But, in many instances, the kind of place where we have hospitality being worked through, it's a bit like 'chicken ding' catering; it's very low skilled, unfortunately. It's taking pre-prepared foods that are frozen and reworking them in a very high-turnover, low-cost-to-low-reward economy. It's not Michelin star, unfortunately. So, I think we have to see this in that context."*³⁵

69. Galwodd Arwyn Watkins am raglen lawn wedi'i hariannu'n llawn o opsiynau Addysg Bellach (AB). Cydnabu mai ychydig iawn o fusnesau sy'n cynnig prentisiaethau sy'n cyd-fynd â'r model 'coginio proffesiynol', ac y dylai hynny fod yn un yn unig o'r opsiynau sydd ar gael mewn AB:

"very often, they are operating under production-chef model, and the production-chef qualification is not something that is widely offered as a full-time further education programme".

Dywedodd fod llawer o'r swyddi sgiliau is hynny wedi'u llenwi'n flaenorol gan fudwyr economaidd, a bod rhai cyflogwyr yn edrych ar gytundebau masnach ar gyfer rhyddid gweithwyr i symud, i lenwi'r swyddi hynny ar ôl gadael yr UE.

³⁴ Paragraff 284, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

³⁵ Paragraff 295, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

70. Roedd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at y £10m ychwanegol ar gyfer Cyfrifon Dysgu Personol a gyhoeddwyd yn 2021 a dywedodd y bydd hyn *"yn sicrhau bod mwy o gogyddion, staff gweini a staff blaen y tŷ hyfforddedig ar gael i weithio yn y sector lletygarwch."*³⁶

71. Dywedodd Iestyn Davies o Colegau Cymru ei fod yn ymwneud ag ailddylunio swyddi, ond mai galw gan gyflogwyr fyddai bwysicaf bob amser. Dywedodd fod arferion gwaith presennol yn atal pobl rhag symud ymlaen neu aros yn y diwydiannau hynny. Roedd yn deall y gallai fod yn haws i gyflogwyr edrych ar lafur rhad, yn hytrach na cheisio tyfu'r proffesiwn mewn ffordd a oedd wedyn yn galluogi prentisiaethau a llwybrau dilyniant i gael eu datblygu, ond bod angen ailfeddwl yn y diwydiant.

72. Tynnodd cynrychiolwyr o'r sector twristiaeth sylw at yr ystod eang o broffesiynau lefel uwch sydd eu hangen i gefnogi'r economi ymwelwyr. Dywedodd Suzy Davies o Gynghair Twristiaeth Cymru, er bod angen cyflogaeth hyblyg, ei fod hefyd yn lle i ddatblygu sgiliau ac a oedd wedi bod ar goll o ymgyrchoedd recriwtio blaenorol:

*"...tourism needs lawyers, it needs accountants, it needs construction—it needs a whole range of professional, highly valued input, and we don't really talk about those careers in the context of tourism often enough. If we did that, I think we would take considerable steps towards improving the status...of the industry, as it is in other countries, actually, where it is seen as a very highly valued area of operation."*³⁷

73. Gofynnodd y Pwyllgor i dystion pa rôl oedd gan brentisiaethau, gan gynnwys gradd-brentisiaethau, o ran diffinio'r llwybr sgiliau hwnnw. Rhybuddiodd Arwyn Watkins, mewn perthynas â'r agenda sgiliau uwch, fod y rhan fwyaf o swyddi yn y sectorau ar lefel ymarferol y safonau galwedigaethol cenedlaethol, a bod hyn yn wir yn y DU ac yn fyd-eang.

74. Roedd Suzy Davies o'r farn bod twristiaeth yn faes i'w ddatblygu ar gyfer rhai gradd-brentisiaethau, i gefnogi datblygiad y 'darlun mawr' yn y sector gyda rhai sgiliau galwedigaethol o'r safon uchaf:

"I just think it's the ideal territory to do this, because it's an opportunity to develop a huge range of skills at high level, including things like destination management, which is something where, at the moment, it's unclear who

³⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, 17 Mawrth 2022

³⁷ Paragraff 105, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

has got the major responsibility for doing that in the tourism structure that we have, and yet it's where the mistakes get made, if you like.

We're talking about high-end vocational skills here, as well as the ability to be a great chef or the ability to be a great front-of-house person. If you haven't got people with not just the experience but the skills to see the big picture, then all of the things that we've been talking about today are unlikely to proceed at pace."³⁸

75. Cytunodd Michael Bewick o Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru fod mater i'w ddatrys o ran uchelgais fewnol, a oedd yn rhan o'r mater canfyddiad i'r economi ymwelwyr y bydd yn cymryd cryn amser i'w ddatrys, ond ei fod yn amlwg yn hanfodol er mwyn proffesiynoli'r diwydiant.³⁹

76. Wrth ymateb i adroddiad y Pwyllgor ar waith craffu ar y gyllideb ym mis Ionawr, roedd Gweinidog yr Economi wedi dweud y byddai llwybrau newydd yn cael eu llywio gan gynlluniau partneriaeth sgiliau rhanbarthol. Hefyd, dywedodd y Gweinidog Addysg wrth Bwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y Senedd ym mis Mai ei fod yn disgwyl y byddai cyflwyno'r Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil newydd yn hwyluso'r broses i ehangu prentisiaethau. Dywedodd Gweinidog yr Economi wrth y Pwyllgor nad oedd wedi'i argyhoeddi mai gradd-brentisiaethau oedd yr ateb i'r sector twristiaeth, ond eu bod yn bwysig a'i fod am drafod hynny ochr yn ochr â'r diwydiant, fel rhan o ymdrechion i ddylanwadu ar bobl a'u hannog i weld cyfleoedd gyrfa yn y sector. Mae'r Pwyllgor yn bwriadu cadw llygad ar ddatblygiadau yn y maes hwn.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru nodi'n fanylach lle y mae'n gweld cwmplas, yn ei chynllun i ehangu'r rhaglen brentisiaethau, ar gyfer llwybrau gyrfa lefel uwch ym maes twristiaeth a lletygarwch, gan gynnwys ar gyfer gradd-brentisiaethau.

Gwaith teg

77. Canfu cyfweiliadau â gweithwyr ar draws y tri sector ac mewn rhannau gwahanol o Gymru eu bod yn cael pleser mawr o weithio yn y sectorau hynny. Fodd bynnag, gwnaethant sôn am y canlynol hefyd:

- Tâl isel a'r cynnydd yn y costau byw.
- Tâl nad yw'n adlewyrchu'r llwyth gwaith.

³⁸ Paragraff 110, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

³⁹ Paragraff 118, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

- Pwysau ar y llwythi gwaith oherwydd diffyg staff.
- Diogelwch gweithwyr yn ystod y pandemig.
- Diffyg trefniadau contract sicr.
- Gweithwyr ddim yn cael eu clywed a neb yn gwrando arnynt.

"Mae gweithio yn y sector manwerthu'n golygu does dim rhaid i mi symud allan o fy nghymuned ar gyfer gwaith. Dw i'n gallu byw yn yr ardal lle ces i fy magu, lle mae fy iaith yn cael ei defnyddio.

Does dim sicrwydd swydd yn y sector manwerthu, mae staff yn cael eu hystyried fel cost sy'n gallu cael ei rheoli, yn debyg i wastraff a stoc yn lleihau. Mae angen cael gwared ar gontractau dim oriau a mynd yn ôl i gontractau rhan-amser ac amser llawn. Mae angen trefniadau contract sicr ar weithwyr. Ond dyw cyfraith cyflogaeth ddim yn gofalu am y gweithiwr, mae'n gwyrto i'r cyflogwr. Mae angen ymgynghori â staff fel bod newidiadau'n gweithio iddyn nhw hefyd. Ond, mae undebau manwerthu'n aneffeithiol ac mae'r rheolwyr yn ormesol, felly mae'n anodd i'r staff leisio'u barn.

Mae angen newid pethau fel bod llais gan y staff, fel mynd yn ôl i bwyllgorau gweithwyr neu fforymau gweithwyr annibynnol, er mwyn i ni ddweud ein dweud ar bethau fel cyflogau ac amodau gwaith. Rydyn ni'n colli hanner awr o dâl ar gyfer egwyl i gael pryd o fwyd, ond mae'n amhosibl i ni adael y safle i gael bwyd, ei fwyta a bod yn ôl mewn pryd. Yn gymharol ddiweddar, awr oedd y norm ar gyfer egwyl."

Gweithiwr manwerthu, Gwynedd

"Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel yn gweithio yn ystod y pandemig, yn enwedig gan fy mod i'n hŷn. Rydych chi'n cael llawer o sarhad gan gwsmeriaid hefyd. Roedd yr amodau gwaith yn ofnadwy.

A dweud y gwir, dydw i ddim yn gwybod beth yw fy hawliau cyflogaeth! Does neb yn gwrando arnom ni, y gweithwyr, beth bynnag. Does dim gwybodaeth am beth i'w wneud os ydych chi eisiau rhoi gwybod am broblem. Does neb yn rhoi gwybod am broblemau beth bynnag."

Gweithiwr lletygarwch, Bro Morgannwg

"Yn y sector twristiaeth, mae ymwelwyr yn cael mwy o lais a llawer mwy o barch na ni, y gweithwyr lleol. Dyw'r rheolwyr ddim yn rhoi llawer o sylw i'r gweithwyr, dim ond yr ymwelwyr. Mae angen gorfodi'r diwydiant i ymladd dros ei staff a gofalu am eu llesiant.

Mae'r tâl yn isel iawn, does dim cystadleuaeth o ddiwydiannau eraill, felly does dim byd yn newid. Hefyd, mae'r costau byw'n cynyddu, ond dyw ein cyflog ni ddim. Heb gyfle go iawn i ni gamu ymlaen yn ein gyrfa, sut allwn ni gael cyflog gwell?"

Gweithiwr twristiaeth lleol, Ceredigion

78. Dywedodd Iestyn Davies o Colegau Cymru fod angen newid diwylliant yn y sectorau twristiaeth a lletygarwch. Mae angen i dâl a gwobr adlewyrchu costau byw pobl ifanc sy'n mynd i'r sectorau hynny. Yn ogystal, mae angen gwobrwyo staff am weithio'n galed, sifftiau hir, er enghraifft yn yr economi gyda'r hwyr, a phan fo sifftiau ar y penwythnos ac ar wyliau banc yn ei gwneud yn anodd cydbwysu bywyd a gwaith.

79. Dywedodd Shavanah Taj o TUC Cymru nad tâl canolrifol isel yn y sectorau oedd yr unig broblem fawr i weithwyr hyd at ymddeol, ond telerau ac amodau gwael yn gyffredinol:

"..in hospitality and tourism it's estimated that 70 to 75 per cent of workers earn below the real living wage, and in terms of terms and conditions as well, this rarely actually goes beyond statutory minimum for workers in the sector. So, for example, 60 per cent of hospitality workers and 10 per cent of retail workers don't actually receive any statutory sick pay when they become ill, because they don't work enough hours so their boss can't actually claim statutory sick pay. So, by focusing on just the hourly pay, we do actually miss that much bigger gap in the overall remuneration package."

80. Adroddodd Shavanah Taj lefelau uchel o ddyled bersonol, a thynnodd sylw hefyd at ansicrwydd enfawr yn y sectorau a phroblem enfawr gyda chyflogwyr yn aml yn symud llawer o'r risg i'r gweithlu. Dywedodd fod 1 o bob 4 gweithiwr yn y sectorau llety a gwasanaeth bywd ar gcontractau dim oriau. Mae anffurfioldeb cysylltiadau cyflogaion yn broblem, ac mae ymchwil yn dangos lefelau uchel o ddiffyg cydymffurfio â hawliau llafur a chyfraith cyflogaeth, gan gynnwys ynghylch pethau fel oriau di-dâl, a dim seibiannau gwaith neu rai cyfyngedig.⁴⁰

⁴⁰ Paragraff 176, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

81. Cytunodd Mark Turner o Unite â dadansoddiad TUC Cymru, sef gweithlu cymharol ddi-rym, gan ychwanegu bod cyfleoedd hyfforddi yn annigonol:

"it really is low down on a lot of the colleges' and universities' curriculum."

Dywedodd nad oedd gweithwyr iau'n deall eu hawliau ac nad oeddent yn ymwybodol ohonynt wrth ymuno â'r gweithle am y tro cyntaf, felly roeddent yn agored i gael eu cam-drin gan gyflogwyr a gallant gael contractau sy'n wrthun.

82. Dywedodd Shavanah Taj fod cynnydd da wedi'i wneud yn y sector manwerthu lle roedd mwy o gydfargeinio a chynrychiolaeth gan undebau, a bod Llywodraeth Cymru wedi gallu dod â phobl o amgylch y ford. Roedd datblygu'r strategaeth fanwerthu wedi bod yn enghraifft wych o weithio mewn partneriaeth gymdeithasol.⁴¹

83. Dywedodd fod llai o strwythurau yn y sectorau lletygwrch a thwristiaeth ar gyfer cydweithio, er ei bod yn croesawu'r ffaith bod Unite wedi'i gynnwys yn strwythur y fforwm economi ymwelwyr yn ddiweddar. Croesawodd ran yr undebau wrth gyflawni cynllun gweithredu'r economi ymwelwyr, gan nodi nad oeddent yn ymwneud â llunio'r cynllun. Roedd Shavanah Taj am weld newid yn y dyfodol, a chydabyddiaeth y dylai hyfforddiant fod yn gyfrifoldeb y cyflogwr, nid Llywodraeth Cymru. Os oedd disgwyl i'r wladwriaeth ariannu hyfforddiant, dywedodd y bydd hynny'n adlewyrchu rhai o'r dyheadau isel sydd gennym i weithlu Cymru yn y sector hwn.⁴²

Argymhelliad 14. Dylai Llywodraeth Cymru roi rhagor o wybodaeth am Aelodaeth y Fforwm Economi Ymwelwyr, gan gynnwys sut y mae'n cynnwys perchen-weithredwyr llai yn uniongyrchol, a nodi i ba raddau y mae bwrw ymlaen â chanlyniadau gwaith teg yn rhan o'i chylch gorchwyl.

Argymhelliad 15. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei hymgyssylltiad â phartneriaid yn y Fforwm Economi Ymwelwyr cystal ag un y Fforwm Manwerthu, gan adeiladu ar arferion gorau a gwersi a ddysgwyd o brofiad partneriaeth gymdeithasol.

84. Roedd TUC Cymru am i dair prif flaenoriaeth Llywodraeth Cymru fod; canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwaith tecach o gyllid, buddsoddi yn y sectorau, gan gynnwys ystyried sut y mae mentrau fel gofal plant yn gweithio'n benodol i'r gweithwyr hynny, a gweledigaeth gliriach a gonestrwydd am y materion cyflogaeth sy'n effeithio ar ddegau o filoedd o weithwyr yn y sectorau hyn. Dywedodd nad oedd yn ymwneud â bychanu sectorau, ond bod â syniad clir o rôl y wladwriaeth a rôl y cyflogwr. Roedd yn amlwg yr ystyriwyd bod cydnabod undebau'n

⁴¹ Paragraff 207, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁴² Paragraff 208, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

bwysig iawn, ac roedd TUC Cymru yn gobeithio am newid drwy'r ddeddfwriaeth partneriaeth gymdeithasol arfaethedig.

85. Hefyd, dywedodd Mark Turner, y tu hwnt i faterion gofal plant, ei bod yn bwysig i gyflogwyr ddeall bod gweithwyr mewn ardaloedd gwledig sy'n dibynnu ar dwristiaeth efallai â 3 neu 4 swydd wahanol, gyda'r holl heriau a ddaw yn sgil hynny.⁴³

86. Croesawodd Dr Victoria Winckler o Sefydliad Bevan y ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi dechrau ymwneud â materion gweithlu, ond roedd yn gobeithio am fwy o gynnydd o ran gwella telerau ac amodau. Nododd mai'r blaenoriaethau ar gyfer Llywodraeth Cymru oedd sicrhau nad yw'n cefnogi arferion gwaith nad ydynt yn cydymffurfio; a sicrhau bod myfyrwyr o Gymru mewn addysg uwch, addysg bellach a phrentisiaethau yn cael eu haddysgu am eu hawliau statudol. Dywedodd fod mwy o bobl yng Nghymru fwy na thebyg yn ymwybodol o'u hawliau fel defnyddwyr na'u hawliau fel gweithwyr. Yn drydydd, roedd am weld cyd-fuddsoddiad⁴⁴, hynny yw buddsoddiad mewn busnesau ac yn y gweithlu, fel nad ystyrir yr olaf yn rhywbeth dibwys.

87. Cododd y Pwyllgor y mater gyda Gweinidog yr Economi bod rhai cyflogwyr yn y sector lletygarwch yn defnyddio apiau gwylidwriaeth i fonitro lleoliad cyflogeion. Cytunodd y Gweinidog fod y math hwn o arfer gan gyflogwr llai egwyddorol yn gweithio i raddau helaeth yn erbyn y neges roedd y sector am ei hyrwyddo fel un sy'n cynnig dewis gyrfa cadarnhaol. Gofynnodd i enghreifftiau o'r arfer hwn gael eu rhannu ag ef fel y gallai gyfrannu hynny i ddull gweithredu strategol Llywodraeth Cymru.

88. Dywedodd Mark Turner o Unite wrth y Pwyllgor ei bod yn bwysig i Lywodraeth Cymru sicrhau nad oedd yn ymrwymo i bartneriaethau â sefydliadau mawr nad oeddent yn cydnabod undebau neu sydd ag arferion gwaith gwael - mae'n rhaid iddo ddod o'r brig i lawr.⁴⁵ Cytunodd Dr Winckler fod yn rhaid i Lywodraeth Cymru wneud mwy na siarad a gwneud penderfyniadau anodd ynghylch y rhai y mae'n gwneud busnes â hwy, neu'r rhai sy'n cael rhyddhad ardrethi busnes.⁴⁶

89. Roedd Shavanah Taj hefyd am i Lywodraeth Cymru ddefnyddio ei throsoledd gyda chyflogwyr i sicrhau bod prentisiaid yn cael eu hisafswm tâl statudol, ac i sicrhau bod polisi sgiliau'n adlewyrchu realiti'r farchnad lafur. Hefyd, galwodd yr undebau i amodoldeb fod

⁴³ Paragraff 187, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁴⁴ Paragraff 192, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁴⁵ Paragraff 216, i Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁴⁶ Paragraff 218, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

ynghlwm wrth gyllid grant i fusnesau, ac roedd Dr Winckler hefyd am i gosbau am arferion gwael gael eu hystyried fel rhan o hynny.

90. Roedd Dr Winckler am i Lywodraeth Cymru fynd i'r afael â'i harweinyddiaeth ar y materion hyn. Dywedodd fod gormod o ffocws ar yr hyn nad oedd wedi'i ddatganoli pan oedd llawer o feysydd lle roedd gan Lywodraeth Cymru bwerau. Fodd bynnag, roedd y cyfrifoldeb am sgiliau a'r Contract Economaidd wedi'i wasgaru ar draws portffolios Gweinidogol gwahanol, ac nid oedd Gweinidog dros y farchnad lafur.

91. Soniodd Gweinidog yr Economi fod gan Lywodraeth Cymru ystod o ysgogiadau eang i hyrwyddo canlyniadau gwaith teg a dylanwadu arnynt. Tynnodd sylw at ddylanwad uniongyrchol yn y sector cyhoeddus ehangach i wella amodau cyflogaeth a chodi disgwyliadau mewn ffordd a allai helpu'r sector twristiaeth yn anuniongyrchol; effaith ysgogiadau caffael ac ariannol; buddsoddiad cyfalaf; a dwyn pŵer ynghyd â rhwydweithiau a phartneriaid cymdeithasol. Dywedodd fod lefel yr ymgysylltiad â phartneriaid o ganlyniad i'r pandemig yn golygu bod perthnasoddd yn well nag erioed.⁴⁷

92. Gofynnodd y Pwyllgor i dystion a oeddent yn meddwl y byddai'n anoddach gweithredu'r agenda Gwaith Teg ac argymhellion y Comisiwn Gwaith Teg yng Nghymru oherwydd yr argyfwng costau byw. Roedd Dr Winckler yn meddwl ei bod yn anodd asesu hyn, ond roedd yn pryderu am y posibilrwydd y byddai dirwasgiad bach yn gwneud pethau'n anoddach i weithwyr mewn sectorau sy'n dibynnu ar bobl ag incwm gwario. Roedd gan Mark Turner o Unite bryderon difrifol y gallai busnesau sydd mewn trafferth ddechrau pasio hyn ymlaen i weithwyr, ac y byddai mwy o bobl yn troi at y farchnad ddu. Dywedodd Shavanah Taj y canlynol:

"I would say that there is a significant risk that it could actually further undermine worker power and that ability to say 'no' to a boss in particular, because it is people's incomes that are being further squeezed. We could also see more people, of course, working dangerously long hours because they are so reliant on that hourly pay rate. And, of course, also, it includes lots of people who are taking on multiple jobs.

Building on that idea, aspects of the UK's social security system have already limited the amount of freedom workers have to say 'no' to their employer, and we're really worried that we're going to be possibly seeing people making some really difficult decisions. There is going to be a growing amount of informal work, where people are going to be topping up their income with

⁴⁷ Paragraff 211, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

informal paid work, so that their welfare payments aren't affected and they can avoid falling into debt or homelessness as well. This makes those individuals, then, really vulnerable—extremely vulnerable, I would say—as it's virtually impossible for workers in that sort of situation to ensure that their basic employment rights are being upheld.

So, there is that risk that the cost-of-living crisis is going to result in further labour exploitation, and it's going to be very difficult to rectify, given the wider employment rights challenges in the UK.”⁴⁸

93. Roedd Shavanah Taj am i'r cap ar y gronfa cymorth dewisol gael ei godi, gan ddweud nad yw wedi ystyried yr ansicrwydd i weithwyr yn y sectorau hynny oherwydd y pandemig. Dywedodd Mark Turner o Unite fod cyfleoedd gwirioneddol i waith teg gael ei ddatblygu drwy'r strategaeth fanwerthu newydd a chynllun gweithredu'r economi ymwelwyr:

“...if we allow things to go back to how they were, then we're missing a massive opportunity....this is a point at which we can make a big change and we need to make those changes for these people in these sectors.”⁴⁹

Rôl y Contract Economaidd

94. Pwysleisiodd yr undebau a Sefydliad Bevan bwysigrwydd i'r Contract Economaidd a mentrau gwaith teg beidio â bod yn ymarfer papur mewn ticio blychau. Dywedodd Dr Victoria Winckler nad yw'n ymwybodol bod y Contract Economaidd yn cael effaith gyffredinol ar waith teg yn y sectorau twristiaeth, lletygarwch a manwerthu, a bod angen systemau monitro a gorfodi gwell i roi dannedd iddo.

95. Dywedodd Mark Turner nad oedd diben achredu busnes fel cyflogwr 'cyflog byw gwirioneddol' os oedd yn mynd â hawliau neu dâl gweithwyr mewn ffyrdd eraill, e.e. drwy wneud iddynt dalu am eu gwisg ffurfiol eu hunain. Dywedodd Shavanah Taj nad oedd y Contract Economaidd yn gontract a'i fod yn bolisi nad oedd yn cael ei ddeall yn iawn - roedd angen mwy o eglurder. Dim ond â'r cyflogwr y cytunwyd arno, ac nid oedd lle i lais y gweithiwr yno.⁵⁰ Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth debyg y llynedd gan Ben Cottam, Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru, a ddywedodd nad yw'r rhan fwyaf o fusnesau'n deall y derminoleg.⁵¹

⁴⁸ Paragraff 199, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

⁴⁹ Paragraff 211, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁵⁰ Paragraff 258, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

⁵¹ Paragraph 266, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 30 Medi 2021

96. Dywedodd Gweinidog yr Economi ei bod yn gyffredin i wleidyddion a llywodraethau ddisgrifio 'contract' nad oedd yn gyfreithiol rwymol, ond ei bod yn bwysig ar gyfer crynhoi dull Llywodraeth Cymru o godi'r bar i'r busnesau roedd yn eu cefnogi ac yn ymgysylltu â hwy. Yn ogystal â gwaith teg, dywedodd ei fod yn ymwneud â meysydd eraill lle roedd Llywodraeth Cymru am i gwmnïau wneud y penderfyniadau buddsoddi cywir, i hyrwyddo llesiant, carbon isel a gwrthsefyll newid hinsawdd. Dywedodd fod Llywodraeth Cymru am gryfhau'r Contract Economaidd, a'i bod yn bwysig ei bod yn pennu disgwyliadau ar fusnesau yng Nghymru.

Argymhelliad 16. O gofio'r pryderon a gododd cynrychiolwyr busnes ac undebau llafur ynghylch diffyg dealltwriaeth o'r Contract Economaidd, dylai Llywodraeth Cymru adolygu ei dull o esbonio a hyrwyddo'r contract, a nodi sut y mae'n bwriadu gwella cyfathrebu fel rhan o'i gwaith i gryfhau'r contract.

Argymhelliad 17. Er ei fod yn cydnabod nad offeryn cydymffurfio yw'r Contract Economaidd, mae'r Pwyllgor yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda phartneriaid cymdeithasol i ddatblygu mecanweithiau i adolygu contractau enghreifftiol, ac yn nodi cynlluniau eraill sydd ganddi i gryfhau'r gwaith monitro a gorfodi fel rhan o'i gwaith ar gryfhau'r contract.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru nodi sut y bydd yn defnyddio'r ysgogiadau gwaith teg sydd ar gael iddi er mwyn mynd i'r afael â'r materion a godwyd yn adroddiad y Pwyllgor ar rwystrau i waith teg yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a manwerthu: gan gynnwys diogelu a gwella tâl ac amodau gweithwyr yn y sector yn sgil pwysau costau byw cynyddol ar weithwyr a chyflogwyr; gwella llais gweithwyr; a defnyddio amodau mewn cyllid grant i fusnesau i sicrhau gwelliannau gwaith teg.

Statws y sectorau

"Y rhwystr mwyaf dw i'n ei wynebu wrth ddenu pobl i weithio yn y sector lletygarwch yw statws y sector a barn pobl amdano fe. Pan rydych chi'n cael eich cyflogi yn y sector, rydych chi'n gweld bod eich sgiliau ddim yn cael eu gwerthfawrogi a bod eich cyflog ddim yn adlewyrchu'r gwaith rydych chi'n ei wneud."

Perchennog busnes lletygarwch, Conwy

97. Yr allwedd i wella tâl ac amodau, mynd i'r afael â phrinder a hyrwyddo gyrfaoedd yn y sectorau hyn yw codi eu statws. Fel y canfu'r Pwyllgor gyda'i ymchwiliad blaenorol i brinder gyrwyr cerbydau nwyddau trwm, er gwaethaf pwysigrwydd y sectorau hyn i economi Cymru, a pha mor andwyol oedd effaith y pandemig arnynt, nid ydynt yn cael y gydnabyddiaeth y maent yn ei haeddu, ac mae eu gweithwyr yn teimlo nad ydynt yn cael eu gwerthfawrogi'n iawn.

"Dw i wrth fy modd yn gweithio yn y sector twristiaeth, ond dw i'n poeni am sicrwydd fy swydd a'r toriadau staffio, ar y cyd â'r cynnydd yn y llwythi gwaith. Mae angen i Lywodraeth Cymru hyrwyddo twristiaeth fel cyfle i gael gyrfa hyfyw. Hefyd, mae angen cynyddu'r cyflogau, am fod llawer ohonon ni ar dâl isel, i annog pobl i ddod i'r sector. Yn anffodus, dyw busnesau ddim yn gallu cynyddu cyflog eu staff oherwydd y cynnydd yn y costau mae'n rhaid iddyn nhw eu talu, fel gorbenion, ardrethi busnes, trethi, yswiriant, TAW, ac ati. Pe bai Llywodraeth Cymru yn helpu busnesau twristiaeth gydag ardrethi busnes, trethi, ac ati, gallen nhw gynyddu cyflogau. Dyw ein tâl ddim yn adlewyrchu'r llwyth gwaith, yr ymrwymiad, na'r balchder sydd gyda ni i'n gwaith."

Gweithiwr twristiaeth, Sir Ddinbych

98. Ni chafodd arwyddocâd y sector lletygarwch i economi Cymru ei gydnabod yn iawn yn ystod y pandemig. Dywedodd Mark Turner o Unite y canlynol:

"We're talking about a sector that employs, at its height, 200,000 people, that was bringing in—the figures that I have, but I'd have to double-check—£6 billion to the Welsh economy at one stage. This is big money. We're not talking of a small industry. And the bit for me is that, if you were talking about 200,000 people that were in one plant on a site in Wales—. So, take Port Talbot steelworks, for example, if that had 200,000 people on it and suddenly somebody came along and said, 'Right, we're shutting that down', everybody would have jumped. But we did that to, say, 140,000 people in Wales at the start of the pandemic, and it was just like, 'Well, that's the way it is.' And that's the bit that's frustrating. We need to treat the workers in the hospitality sector the same way as we treat any other working group and any other sector. So, yes, I believe that a forum for the hospitality and tourism sector, really going forward, is a must."⁵²

⁵² Paragraff 228, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

99. Dywedodd Arwyn Watkins fod gwaith yn cael ei wneud i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol am weithio yn y sector lletygarwch, er enghraifft gyda'r astudiaethau achos '**straeon go iawn**' o bobl ifanc ar wefan Cymru'n Gweithio, a hyrwyddwyd hefyd yn ystod Wythnos Twristiaeth Cymru fel rhan o'r ymgyrch #CreuwyrProfiad i hyrwyddo'r economi ymwelwyr. Hefyd, mae UKHospitality wedi cyhoeddi **strategaeth gweithlu** yn nodi'r materion y mae angen ymdrin â hwy yn y diwydiant ar draws y DU.

100. Dywedodd Jeff Protheroe o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ar gyfer y sector manwerthu hefyd, ar wahân i faterion yn ymwneud â gwobr a chadw, fod cyfle i ddatblygu dull 'tîm Cymru' o herio canfyddiadau a sicrhau bod gweithwyr yn teimlo eu bod yn cael eu cydnabod am eu cyfraniad at economi Cymru:

*"We're beginning to see that approach being taken in other important sectors, such as the health and social care sector, where individuals working in that sector are being recognised for what they do, and I think it is that time now when if Wales is wanting to develop that visitor economy, we recognise the importance of the workforce and they should be recognised for the contribution that they make. And that doesn't necessarily impact on the business models or businesses operating it, but what it does do is demonstrate that Wales is proud of its workforce, working in the sector."*⁵³

Proffesiynoli'r sectorau a chreu llwybrau dilyniant

"Dw i'n hoffi gweithio yn y sector manwerthu'n fawr. Dw i'n 18 oed, felly mae cael cyfle clir i mi gamu ymlaen yn fy ngyrfa'n bwysig, ac mae gweithio yn y sector manwerthu'n rhoi hynny i mi. Dw i hefyd yn hoffi'r hyblygrwydd yn y sector ac mae fy nghyflogwr yn dda a dw i'n hoffi gweithio iddo fe, felly dw i'n gallu gweithio'r oriau sy'n addas i mi gyda chyflogwr dw i'n cyd-dynnu ag e. Ond, er fy mod i'n hoffi'r hyblygrwydd o ran oriau, maen nhw'n afreolaidd ac yn ansicr.

Dw i ddim yn meddwl bod y tâl yn deg. Mae'n rhy isel a dyw e ddim yn adlewyrchu'r gwaith. Dyw'r cyflogwyr ddim yn rhoi digon o fuddion i ni chwaith.

Roedd gweithio yn ystod y pandemig yn llawer o straen. Doeddwn i ddim yn teimlo'n ddiogel - roeddwn i'n poeni am ddal y feirws gan bobl eraill. Roeddech chi'n cael llawer o sarhad gan gwsmeriaid hefyd, roedd e'n anodd iawn. Mae'n waeth oherwydd does neb yn gwrandao ar y gweithwyr. Dw i ddim yn credu y byddwn i'n cael

⁵³ Paragraff 311, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

cefnogaeth i godi problem sy'n ymwneud â gwaith. Rydych chi ar eich pen eich hunan."

Gweithiwr manwerthu, Blaenau Gwent

101. Ar gyfer y sector manwerthu, roedd Colegau Cymru yn feirniadol bod y Llywodraeth, yn y gorffennol, wedi dod dan bwysau sylweddol gan fanwerthwyr brandiau mawr i wneud y canlynol:

"almost allow them to cash in their chips when it comes to their apprenticeship levy money into what can often be low-skill, low-value, in-house training programmes and badging them as apprenticeships."

Dywedodd y dylai'r llywodraeth gael ei chefnogi gan bob plaid i osgoi meddwl yn y tymor byr fel hynny, a cheisio sefydlu llwybrau dilyniant llawer mwy integredig. Gan gyfeirio at gyfatebiaeth Jeff Protheroe i 'dîm Cymru', dywedodd fod angen gwaith partneriaeth gwell rhwng darparwyr AB, cyflogwyr mwy sydd ag ymrwymiad gwirioneddol i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol a'r llywodraeth.

102. Dywedodd Arwyn Watkins o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru ei fod yn gweld cyflogwyr a oedd yn buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi a hyfforddiant, ac yn dechrau acadëmiau, ond bod angen ailfeddwl sylfaenol ynghylch sgiliau lletygarwch, a bod problem ynghylch sut y mae llunwyr polisi a phobl sy'n gwneud penderfyniadau yn gweld y sector. Rhoddodd rôl cadw tŷ fel enghraifft, swydd grefftus ond nad oedd yn cael ei hystyried fel hynny, a lle y mae prinder difrifol. Dywedodd fod yr ymrwymiad i gyflwyno treth dwristiaeth yng Nghymru yn golygu bod angen rhoi clod sylweddol i'r sector o ran ei bwysigrwydd i economi Cymru. Gwelodd James Scorey o Goleg Caerdydd a'r Fro gyfleoedd enfawr i ddod â phobl ifanc i mewn a hefyd ailsgilio'r rhai a oedd wedi gweithio yn y sector yn y gorffennol, gyda Choleg Caerdydd a'r Fro yn edrych ar ddatblygu acadëmiau sgiliau sector blaenoriaethol, a chynnig cymhellion ar gyfer rhaglenni byr, dwys i ddod â phobl i mewn i'r sector.

103. Cyfeiriodd Suzy Davies o Gynghrair Twristiaeth Cymru hefyd at y cynlluniau i ddatblygu hyb i ddarparu mynediad at gyrsiau hyfforddi byr penodol ar-lein:

"...where you can access things digitally for short periods of time, little bitesize pieces of really important training, which can be done in the workplace without taking anybody out of the space."

104. Dywedodd fod hyn yn bwysig i berchen-reolwyr neu weithwyr nad oes angen iddynt fynd ar gyrsiau hwy i ffwrdd o'r gweithle, neu na allant wneud hynny. Mae 'Porth Sgiliau' Busnes

Cymru yn rhoi rhagor o wybodaeth am y **Rhaglen Sgiliau Hyblyg** i helpu busnesau yn y sector twristiaeth a lletygarwch gyda hyfforddiant tan fis Mawrth 2023, yn ogystal â **gwybodaeth am Gyfrifon Dysgu Personol** a lincs i golegau a mynediad at gyngor pwrpasol.

105. Dywedodd Jeff Protheroe o Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru, wrth edrych ar y ffordd roedd sectorau eraill wedi proffesiynoli, nad oedd cofrestru'n opsiwn mewn gwirionedd ond bod cyfle i Croeso Cymru, neu ran arall o Lywodraeth Cymru dan faner tîm Croeso Cymru, fabwysiadu barn gyffredinol ac ymgymryd ag ymarfer cynllunio datblygu'r gweithlu. Hefyd, tynnodd sylw at yr **adolygiad o gymwysterau** o'r sectorau teithio, twristiaeth, lletygarwch ac arlwygo a oedd yn cael ei gynnal ac y disgwyli'r ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2023. Nododd yr ystyir bod manwerthu, ar hyn o bryd, yn sector nad yw'n flaenoriaeth o brentisiaethau cyffredinol, ond ei fod hefyd yn rhan bwysig o'r economi ymwelwyr ac y dylid ei ystyried felly: Mae'r Pwyllgor yn gobeithio bod y gwaith adolygu gan Cymwysterau Cymru yn adlewyrchu mwy o flaenoriaeth yn cael ei rhoi i broffesiynoli'r sectorau hyn. Dywedodd Jeff Protheroe y canlynol:

*"we've got to change those levels of perceptions. And let's bring everybody under the banner of, 'You are part of the visitor economy, and if you're part of the visitor economy—and that could be demonstrated—then you're priority.'"*⁵⁴

106. Dywedodd Gweinidog yr Economi y byddai Llywodraeth Cymru yn parhau i gefnogi pobl i wella eu sgiliau a chael mynediad at waith teg ond ei fod, yn y bôn, yn ymwneud â cheisio dylanwadu ar y sector preifat i wella ei arlwy. Dywedodd fod rhai busnesau wedi gorfod gwneud hyn o reidrwydd oherwydd y prinder llafur, ond dywedodd y canlynol:

*"if you want people to see this as a career, not a seasonal job, you've got to improve what people are going to get, not just in terms of take-home pay, but in the genuine investment in them and their career."*⁵⁵

107. Er bod y Gweinidog wedi gweld rôl i Twf Swyddi Cymru+ helpu pobl i weld llwybr gyrfa yn y sectorau hyn, dywedodd hefyd fod angen i dâl ac amodau wella. Tynnodd sylw at y sgwrs barhaus â'r grŵp economi ymwelwyr fel y ffordd o 'symud y sgwrs' â'r cyhoedd ehangach.

⁵⁴ Paragraff 327, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 3 Mawrth 2022

⁵⁵ Paragraff 213, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, 17 Mawrth 2022

Atodiad A: Rhestr o'r sesiynau tystiolaeth lafar

Rhoddodd y tystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Mae trawsgrifiadau'r holl sesiynau tystiolaeth lafar ar gael ar wefan y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a sefydliad
3 Mawrth 2022	David Chapman, Cyfarwyddwr Gweithredol, UKHospitality Cymru Sara Jones, Cyfarwyddwr, Consortiwm Manwerthu Cymru Suzy Davies, Cadeirydd, Cynghrair Twristiaeth Cymru Michael Bewick, Cadeirydd, Fforwm Twristiaeth Gogledd Cymru Dr Victoria Winckler, Cyfarwyddwr, Sefydliad Bevan Shavanah Taj, Ysgrifennydd Cyffredinol, Cyngres Undebau Llafur Cymru Mark Turner, Cydgysylltydd Cymunedol, Uno'r Undeb Cymru Iestyn Davies, Prif Weithredwr, Colegau Cymru Jeff Protheroe, Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru James Scorey, Dirprwy Brifathro, Cyllid a Chynllunio, Coleg Caerdydd a'r Fro Arwyn Watkins, Ffederasiwn Hyfforddiant Cenedlaethol Cymru
17 Mawrth 2022	Vaughan Gething AS, Gweinidog yr Economi, Llywodraeth Cymru Steffan Roberts, Dirprwy Gyfarwyddwr, Datblygu Twristiaeth a Chwaraeon, Llywodraeth Cymru

Dyddiad	Enw a sefydliad
	Claire McDonald, Dirprwy Gyfarwyddwr, Polisi Economaidd, Llywodraeth Cymru
	Heledd Owen, Dirprwy Gyfarwyddwr, Marchnata, Llywodraeth Cymru